

# Dogfennau Ategol – Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:	I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Ystafell Bwyllgora 1 – y Senedd	Llinos Madeley
Dyddiad: Dydd Mercher, 20 Medi 2017	Clerc y Pwyllgor
Amser: 09.00	0300 200 6565
	<a href="mailto:SeneddPPIA@cynulliad.cymru">SeneddPPIA@cynulliad.cymru</a>

## Papurau i'w nodi

Noder bod y dogfennau a ganlyn yn ychwanegol i'r dogfennau a gyhoeddwyd yn y prif becyn ar gyfer y cyfarfod hwn

### 5 Papurau i'w nodi

(11.05)

#### 5.1 Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant – Y ddarpariaeth o ran eiriolaeth statudol

(Tudalennau 1 – 2)

Yn y ddadl ar Adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar ei ymchwiliad i'r Ddarpariaeth o ran Eiriolaeth Statudol, un o'r argymhellion a gytunwyd oedd bod Ysgrifennydd y Cabinet yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y dull gweithredu cenedlaethol i'r Pwyllgor. Mae'r llythyr hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf.

Dogfennau atodol:

CYPE(5)–24–17 – Papur 4 – i'w nodi

#### 5.2 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid – Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018–19

(Tudalennau 3 – 5)

Mae'r Pwyllgor Cyllid wedi cytuno ar ei ddull gweithredu o ran craffu ar y gyllideb. Mae'r Cadeirydd wedi ysgrifennu at holl Gadeiryddion y pwyllgorau pwnc i rannu ei syniadau ac i annog y pwyllgorau i ystyried sut y gallant gyfrannu at y broses fwyaf cydlynol ac effeithiol o graffu ar gynlluniau gwariant y Llywodraeth.

Dogfennau atodol:

CYPE(5)–24–17 – Papur 5 – i'w nodi



### **5.3 Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg – Ysgolion bro**

(Tudalennau 6 – 8)

Ysgrifennodd y Gadeirydd at Ysgrifennydd y Cabinet i ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am ysgolion bro, a darperir y wybodaeth yn y llythyr.

Dogfennau atodol:

CYPE(5)–24–17 – Papur 6 – i'w nodi

### **5.4 Llythyr gan y Llywydd – Senedd leuenctid**

(Tudalen 9)

Mae'r llythyr hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am brosiect y Senedd leuenctid.

Dogfennau atodol:

CYPE(5)–24–17 – Papur 7 – i'w nodi

### **5.5 Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon at y Pwyllgor Deisebau – Timau gofal argyfwng CAMHS**

(Tudalennau 10 – 11)

Mae'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg wedi cael copi o ymateb a anfonwyd at y Pwyllgor Deisebau ynglŷn â CAMHS.

Dogfennau atodol:

CYPE(5)–24–17 – Papur 8 – i'w nodi (Saesneg yn unig)

### **5.6 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus – Consortia Addysg Rhanbarthol**

(Tudalennau 12 – 38)

Cynhaliodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ymchwiliad byr i ganfyddiadau memorandwm yr Archwilydd Cyffredinol ar 'Sicrhau gwelliannau yn y cymorth i ysgolion trwy gonsortia addysg rhanbarthol – adolygiad o'r cynnydd' – Cafodd nifer o faterion yn ymwneud â phortffolio'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg eu codi a'u crynhoi yn y llythyr hwn.

Dogfennau atodol:

CYPE(5)–24–17 – Papur 9 – i'w nodi

## **5.7 Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon – Ymchwiliad i Iechyd Meddwl Amenedigol**

(Tudalennau 39 – 41)

Ymateb Ysgrifennydd y Cabinet i'r camau a godwyd yn dilyn y sesiwn dystiolaeth ar 12 Gorffennaf.

Dogfennau atodol:

CYPE(5)–24–17 – Papur 10 – i'w nodi

## **5.8 Llythyr gan Uwch Grwner EM ar gyfer Gogledd Cymru (Dwyrain a Chanolog) – Ymchwiliad i Iechyd Meddwl Amenedigol**

(Tudalen 42)

Mae'r Crwner wedi ymateb i gais y Pwyllgor am wybodaeth yn ymwneud â chwest y tynnwyd sylw'r Pwyllgor ato yn ystod ei ddigwyddiad i randdeiliaid ar iechyd meddwl amenedigol.

Dogfennau atodol:

CYPE(5)–24–17 – Papur 11 – i'w nodi (Saesneg yn unig)

## **5.9 Gohebiaeth gan Fyrddau Iechyd Lleol – Ymchwiliad i Iechyd Meddwl Amenedigol**

(Tudalen 43)

Ysgrifennodd y Pwyllgor at yr holl Fyrddau Iechyd Lleol yn gofyn am wybodaeth ychwanegol ynglŷn â chefnogaeth seicolegol ar gyfer yr ymchwiliad. Mae'r llythyrau'n rhoi manylion y wybodaeth a ddaeth i law.

Dogfennau atodol:

CYPE(5)–24–17 – Papur 12 – i'w nodi

## **5.10 Llythyr gan Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes – Gwaith Ieuenctid**

(Tudalen 44)

Mae'r llythyr yn ymateb i lythyr y Cadeirydd ar 10 Gorffennaf ac yn croesawu bwriad y Pwyllgor i barhau i adolygu gwaith ieuenctid ledled Cymru ac i fonitro gwaith Llywodraeth Cymru yn fanwl yn y maes hwn.

Dogfennau atodol:

CYPE(5)–24–17 – Papur 13 – i'w nodi

### **5.11 Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith – Teithio gan ddysgwyr**

(Tudalennau 45 – 46)

Mae'r llythyr hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau ym maes teithio i ddysgwyr yng Nghymru ac i ba raddau y mae awdurdodau lleol yn cydymffurfio â deddfwriaeth a chanllawiau ym maes teithio i ddysgwyr.

Dogfennau atodol:

CYPE(5)–24–17 – Papur 14 – i'w nodi

### **5.12 Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon – Fframwaith diwygiedig ar gyfer nyrsys ysgol**

(Tudalennau 47 – 48)

Ysgrifennodd y Pwyllgor at Ysgrifennydd y Cabinet yn gofyn am eglurhad ynglŷn â pherthynas nyrsys ysgol â dysgwyr sydd â chyflyrau iechyd hirdymor neu gronig, ac yn holi pam nad oes cyfeiriad yn y Fframwaith diwygiedig at ganllawiau ar anghenion gofal iechyd presennol. Mae hwn yn ymateb i'r llythyr hwnnw.

Dogfennau atodol:

CYPE(5)–24–17 – Papur 15 – i'w nodi

### **5.13 Llythyr gan y Cadeirydd at y Llywydd – Rhaglen ar gyfer y ddeddfwriaeth sydd ar ddod**

(Tudalen 49)

Trafododd y Pwyllgor hyn yn y cyfarfod ar 20 Gorffennaf. Dyma'r ymateb a anfonwyd ar ran y Pwyllgor at y Llywydd.

Dogfennau atodol:

CYPE(5)–24–17 – Papur 16 – i'w nodi

#### **5.14 Llythyr gan y Llywydd at y Cadeirydd – Gweithredu Deddf Cymru 2017**

(Tudalennau 50 – 52)

Mae'r holl lythyrau isod yn cyfeirio at y dyddiad ar gyfer y prif ddiwrnod penodedig.

Papur i'w nodi 17 – Llythyr gan y Cadeirydd at y Llywydd – Gweithredu Deddf Cymru 2017

Papur i'w nodi 18 – Llythyr gan y Llywydd at y Cadeirydd – Gweithredu Deddf Cymru 2017

Papur i'w nodi 19 – Llythyr gan y Llywydd at y Gwir Anrhydeddus Alun Cairns AS – y prif ddiwrnod penodedig

Dogfennau atodol:

CYPE(5)–24–17 – Papur 17 – i'w nodi

CYPE(5)–24–17 – Papur 18 – i'w nodi

CYPE(5)–24–17 – Papur 19 – i'w nodi

#### **5.15 Gohebiaeth yn dilyn y sesiwn graffu gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant ar 20 Gorffennaf**

(Tudalennau 53 – 62)

Ymateb i'r camau gweithredu a godwyd yn dilyn y sesiwn dystiolaeth ar 20 Gorffennaf.

Dogfennau atodol:

CYPE(5)–24–17 – Papur 20 – i'w nodi

#### **5.16 Y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) – Gohebiaeth a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig**

(Tudalen 63)

Mae'r ohebiaeth hon yn rhoi manylion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig a gyhoeddwyd ar 8 Medi a'r wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog ar weithredu'r Rhaglen Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Dogfennau atodol:

CYPE(5)–24–17 – Papur 21 – i'w nodi

**5.17 Llythyr gan y Cadeirydd at Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon – Ymchwiliad i Iechyd Emosiynol ac Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc**

(Tudalen 64)

Mae'r Cadeirydd wedi ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet yn gofyn am wybodaeth ychwanegol ar gyfer yr ymchwiliad

Dogfennau atodol:

CYPE(5)-24-17 – Papur 22 – i'w nodi

**Carl Sargeant AC/AM**  
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant**  
**Cabinet Secretary for Communities and Children**



**Llywodraeth Cymru**  
**Welsh Government**

Ein cyf/Our ref: MA-P-CS-2397/71

**Lynne Neagle AC**  
**Cadeirydd**  
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

20 Gorffennaf 2017

Annwyl Lynne

Yn ystod y drafodaeth ar Adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ynghylch ei ymchwiliad i Ddarpariaeth Eiriolaeth Statudol ar 29 Mawrth 2017, un o'r argymhellion y cytunwyd arnynt oedd y byddwn yn rhoi diweddariad ar gynnydd y dull cenedlaethol i'r Pwyllgor.

Ar 13 Mehefin, gwnaeth Llywodraeth Cymru ailymgynnull y Grŵp Arweinyddiaeth Strategol lle cafodd yr aelodau ddiweddariad gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ar y cynnydd sylweddol sydd wedi'i wneud gan awdurdodau lleol dros y misoedd diwethaf.

Rwy'n falch o adrodd bod pob un o'r chwe rhanbarth wedi ymrwymo'n llawn i weithredu'r dull cenedlaethol yn llawn ac mae'r holl drefniadau ar waith i alluogi hyn. Cadarnhawyd hyn mewn llythyr a gefais gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol ar 22 Mehefin. Mae copi o'r llythyr hwn wedi'i amgáu, ac mae'n amlinellu'r cynnydd sydd wedi'i wneud hyd yn hyn i'r gwasanaethau cydweithredol rhanbarthol.

Fel yr ydych yn ymwybodol, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddarparu hyd at £550,000 i'r rhanbarthau i sicrhau bod y Cynnig Rhagweithiol yn cael ei ariannu'n llawn. Mae pob rhanbarth wedi cael ei lythyr grant, ac wrth fonitro'r grant yn rheolaidd, bydd modd i Lywodraeth Cymru gadw llygad ar y gwariant am y ddwy flynedd gyntaf.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Tudalen y pecyn 1**

Mae'r dull hefyd yn cynnwys y Fframwaith Safonau a Chanlyniadau Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Eirioli. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ar y Fframwaith fel y cytunwyd yn y Pwyllgor, a daeth yr ymgynghoriad i ben ar 23 Mehefin. Mae fy swyddogion wrthi'n ystyried yr ymatebion a byddant yn diweddarau'r fframwaith i adlewyrchu'r sylwadau a gafwyd.

Gan fod Cymru yn rhan flaenllaw o'r agenda eirioli yn y DU, cytunwyd yng nghyfarfod y Grŵp Arweinyddiaeth Strategol bod angen cydnabod y daith dros 4 blynedd i gyrraedd y pwynt hwn gyda'r Dull Cenedlaethol. Rwy'n cytuno'n llwyr â hyn, ac mae fy swyddogion yn ystyried yr opsiynau ar gyfer cynnal lansiad swyddogol yn y Senedd yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Cytunodd y Grŵp Arweinyddiaeth Strategol i adolygu cynnydd y dull cenedlaethol yn yr hydref. Byddaf yn rhoi diweddariad pellach i chi ar ôl i'r Grŵp gyfarfod.

Yn gywir



**Carl Sargeant AC/AM**

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant  
Cabinet Secretary for Communities and Children



Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg  
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig  
Cadeirydd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu  
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau  
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau  
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon  
Cadeirydd Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

20 Gorffennaf 2017

Annwyl Gadeiryddion y Pwyllgorau

### Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2018–19

Yn ein cyfarfod ar 19 Gorffennaf, cytunodd y Pwyllgor Cyllid ei ddull o graffu ar y gyllideb. Rwy'n ysgrifennu at holl Gadeiryddion y Pwyllgorau i rannu ein syniadau ac i annog eich pwyllgorau i ystyried sut y gallwch gyfrannu at gyflawni'r gwaith craffu mwyaf rhesymegol ac effeithiol ar gynlluniau gwariant y Llywodraeth.

Fel y gwyddoch dyma'r flwyddyn gyntaf y byddwn yn craffu ar y gyllideb ddrafft o dan y Rheolau Sefydlog diwygiedig a'r protocol cysylltiedig. Rwyf wedi trafod hyn gyda Chadeiryddion y Pwyllgorau yn y fforwm Cadeiryddion ar 12 Gorffennaf,

### Rhoi sylw i'r gyllideb

Rydym wedi cytuno i barhau â'r dull a ddilynwyd yn ystod blynyddoedd blaenorol, lle mae craffu ar y gyllideb yn canolbwyntio ar y pedair egwyddor o ran craffu ariannol: fforddiadwyedd, blaenoriaethu, gwerth am arian a phroses. Yr egwyddorion yw:

- **Fforddiadwyedd** – edrych ar y darlun mawr o ran cyfanswm y refeniw a gwariant, ac a oes cydbwysedd priodol;
- **Blaenoriaethu** – a yw'r dyraniadau wedi'u rhannu rhwng sectorau/rhaglenni gwahanol mewn ffordd resymol y gellir ei chyfiawnhau?



- **Gwerth am arian** – yn y bôn, a yw cyrff cyhoeddus yn gwario eu dyraniadau yn dda – economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd (hynny yw) canlyniadau; a
- **Phrosesau'r gyllideb** – a ydynt yn effeithiol ac yn hygyrch ac a oes integreiddio rhwng cynllunio corfforaethol a chynllunio gwasanaethau, a rheoli perfformiad a rheoli ariannol?

Yn dilyn digwyddiad i randdeiliaid yng Ngogledd Cymru, rydym wedi nodi nifer o feysydd yr hoffem weld y gwaith craffu yn canolbwyntio arnynt, sef:

- *Cyllido byrddau iechyd lleol a gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol*
- *dull gweithredu o ran gwariant ataliol, a sut y cynrychiolir hyn wrth ddyrannu adnoddau. (Gwariant ataliol = gwariant sy'n canolbwyntio ar atal problemau a lliniaru ar y galw am wasanaethau yn y dyfodol, drwy ymyrryd yn gynnar);*
- *Cynaliadwyedd gwasanaethau cyhoeddus, arloesi a thrawsnewid gwasanaethau*
- *polisiau Llywodraeth Cymru i leihau tlodi a lliniaru effeithiau'r diwygiadau i'r gyfundrefn les*
- *Cynllunio a pharodrwydd Llywodraeth Cymru ar gyfer gadael yr Undeb Ewropeaidd*
- *Sut y dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio pwerau newydd ynghylch trethi a benthyca*
- *Sut y mae tystiolaeth yn llywio gwaith Llywodraeth Cymru o osod blaenoriaethau a dyraniadau cyllid*
- *Sut y mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn dylanwadu ar y gwaith o lunio polisiau*

Anogir chi i ddefnyddio rhai o'r meysydd hyn fel ffocws eich gwaith craffu ar y gyllideb.

### Ymgynghoriad ar y gyllideb ddrafft

Yn ôl yr arfer, byddwn yn cynnal ymgynghoriad ar ran yr holl Bwyllgorau yn ystod toriad yr haf a bydd yr ymatebion yn cael eu rhannu gyda chi yn yr hydref er mwyn helpu eich gwaith craffu ar y gyllideb ddrafft.



## Amserlen

Fel y gwyddoch erbyn hyn, mae'r dyddiadau ar gyfer y gyllideb ddrafft bellach wedi'u cytuno fel a ganlyn:

- Gosod amlinelliad o'r Gyllideb Ddrafft – 3 Hydref
- Gosod y Gyllideb Ddrafft fanwl – 24 Hydref
- Dyddiad cau ar gyfer adroddiad y Pwyllgor Cyllid – 28 Tachwedd
- *Y ddadl ar y Gyllideb Ddrafft – 5 Rhagfyr*
- Cyflwyno Cynnig y Gyllideb Flynyddol – 19 Rhagfyr

Fel y gwyddoch mae'r darpariaethau mewn perthynas ag adrodd gan bwyllgorau polisi wedi newid, ac rydych yn gallu adrodd yn eich rhinwedd eich hun yn awr (os dymunwch), a gall eich adroddiadau gael eu defnyddio fel dogfen ategol i'r ddadl ar y gyllideb ddrafft. Fel Pwyllgor, rydym yn ystyried sut y gallwn gynnal rôl strategol, oruchwyliol mewn perthynas â chraffu ariannol, ond yn y cyfamser, os oes gennych unrhyw gwestiynau am unrhyw agwedd ar broses y gyllideb ddrafft, mae croeso i chi gysylltu â mi neu Bethan Davies, Clerc y Pwyllgor Cyllid ar 0300 200 6372, neu [Bethan.Davies@cynulliad.cymru](mailto:Bethan.Davies@cynulliad.cymru).

Yn gywir



Simon Thomas

Cadeirydd





Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA(P)KW/2659/17

Lynne Neagle AM  
Cadeirydd – Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

24 Gorffennaf 2017

Annwyl Lynne,

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 26 Mehefin ynghylch blaenraglen waith y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, yn gofyn am y sefyllfa bresennol ynghylch ysgolion bro yng Nghymru.

Gwnaethoch ofyn yn benodol am y cyllid a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i gefnogi awdurdodau lleol i ddatblygu dulliau gweithredu cymunedol yn eu hardaloedd. Trosglwyddwyd elfen o'r grant ysgolion bro blaenorol i'r Grant Effeithiolrwydd Ysgolion fel rhan o'r broses ehangach o ad-drefnu grantiau. Bwriadwyd i'r Grant sefydlu ac atgyfnerthu'r dimensiwn cymunedol sy'n hanfodol ar gyfer effeithiolrwydd ysgolion. Trosglwyddwyd y Grant wedi hynny i'r Grant Gwella Addysg. Mae'r Grant Gwella Addysg, yn ei dro, yn cefnogi canlyniadau gwell i bob dysgwr ar draws y camau allweddol ac mae'r mwyafrif o'r cyllid yn cael ei ddirprwyo i ysgolion i gefnogi ein blaenoriaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol yn unol â chynlluniau datblygu pob ysgol. Mae'r gwariant sy'n gysylltiedig â phrosiectau bro ac ysgolion yn parhau i fod yn gymwys o dan y Grant Gwella Addysg lle mae'n cefnogi canlyniadau gwell i ddysgwyr.

Yn ogystal, cafodd yr elfen gofal plant o'r Grant Ysgolion Bro ei ailenwi yn Grant Gofal Plant y Tu Allan i Orlau Ysgol yn 2011/12. Er hynny, rydym wedi darparu dyraniad blynyddol o £2.3 miliwn i awdurdodau lleol drwy'r Grant hwn i'w cefnogi wrth fynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth gofal plant y tu allan i oriau ysgol yn eu hardaloedd. Defnyddir y grant mewn nifer o ffyrdd ac mae'n amrywio ar draws awdurdodau lleol gan ddibynnu ar anghenion lleol, er enghraifft fe'i defnyddir i ariannu'r ddarpariaeth o leoedd a gynorthwyr, grantiau cynaliadwyedd a hyfforddi staff.

Nodaf y dystiolaeth a roddwyd gan Brif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Yn ystod fy ymweliadau ag ysgolion ledled Cymru, rwyf wedi gweld nifer o enghreifftiau o ble mae'r arferion da hyn yn cael eu rhoi ar waith

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru)  
[Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales](mailto:Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 6

yn ddyddiol. Mae Llywodraeth Cymru wedi annog ysgolion ers tro i weithredu mewn modd strategol mewn perthynas â gweithio cymunedol mewn partneriaeth - y profwyd ei fod yn cefnogi gwaith ysgolion o ymgysylltu â theuluoedd, yn cyfoethogi bywyd ysgol ac yn cyfrannu at 'gyfalaf cymdeithasol' mewn nifer o ffyrdd pwysig eraill. Nid yw hyn wedi newid. Mae ymchwil yn dangos bod teuluoedd disgyblion mewn ysgolion cymunedol yn cyfathrebu mwy ag athrawon ac yn chwarae mwy o ran ym mywyd yr ysgol, a bod rhieni/gofalwyr yn dangos mwy o ymdeimlad o gyfrifoldeb am lwyddiant dysgu eu plant.

Ymgysylltiad teuluoedd a chymunedau yw conglaen y rhaglen Ailysgrifennu'r Dyfodol - ein strategaeth i wella cyrhaeddiad dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig. Os gall ysgolion helpu teuluoedd a'r gymuned ehangach i ddarparu amgylcheddau a chyfleoedd dysgu gwell, yna byddant mewn sefyllfa lawer gwell i helpu plant i gyflawni eu potensial, beth bynnag eu cefndir.

Mae ein canllawiau ar Ymgysylltu â'r Gymuned a heuluoedd, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2015, yn cynnwys pecyn cymorth o 25 o adnoddau ymarferol ar gyfer ysgolion, gan gynnwys un ar ddatblygu partneriaethau cymunedol. Maent oll wedi'u dylunio i annog ystyriaeth a chynllunio camau gweithredu ac i ddarparu enghreifftiau o'r hyn y mae ysgolion eraill wedi'i wneud. Mae'r canllawiau a'r pecyn cymorth yn cysylltu'n agos ag ymgyrch Mae Addysg yn Dechrau yn y Cartref Llywodraeth Cymru, sy'n canolbwyntio'n benodol eleni ar sut y gall rhieni a gofalwyr gefnogi lles eu plentyn. Byddwn yn parhau i weithio gyda chonsortia, awdurdodau lleol ac ysgolion i hybu'r arferion gorau a dull gweithredu cyson mewn perthynas ag ymgysylltu â theuluoedd a chymunedau mewn ysgolion ledled Cymru.

Bydd un o adolygiadau thematig Estyn ar gyfer eleni yn canolbwyntio ar y llwybrau cyfathrebu y mae rhieni'n eu ffafrio ac yn ystyried sut y mae ysgolion yn gweithio i wella eu dulliau o gyfathrebu â rhieni. Un o amcanion allweddol yr adroddiad fydd cefnogi ysgolion a theuluoedd i wella safonau a lles disgyblion drwy leihau rhwystrau i gyfathrebu drwy ymgysylltu â theuluoedd. Bydd adolygiad Estyn hefyd yn rhannu dulliau ymarfer effeithiol gan ysgolion ar ddulliau effeithiol o gyfathrebu ac ymgysylltu â rhieni i wella safonau a lles.

Rwy'n falch o'ch hysbysu y bydd buddsoddiad o £1.4 biliwn ym Mand A o'r Rhaglen i Sicrhau Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif i ailadeiladu ac adnewyddu dros 150 o ysgolion a cholegau ledled Cymru dros gyfnod o bum mlynedd a ddaw i ben yn 2019. Yn ystod Band A, sydd ar waith rhwng 2014 a 2019, anogir awdurdodau lleol a phartneriaid darparu eraill i feddwl yn arloesol ynghylch darparu'r gwasanaethau hyn yn eu hardaloedd ac i sicrhau'r gwerth gorau am arian, er enghraifft, y cyfle i gydleoli gwasanaethau. Bu fy swyddogion hefyd yn annog awdurdodau lleol i ystyried cyfleoedd i ddefnyddio asedau mewn modd cymunedol, er enghraifft y defnydd o gyfleusterau chwaraeon.

Rwy'n parhau i ddatblygu'r gwaith hwn ac, ym Mand B y rhaglen, sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd ac a fydd ar waith rhwng 2019 a 2024, un o'r ddau amcan buddsoddi yw gwneud y mwyaf o'r defnydd o seilwaith ac adnoddau, i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus ar gyfer ein cymunedau erbyn 2024. Bydd hyn yn cynnwys hyblygrwydd o ran ein hasedau er mwyn gwneud y mwyaf o'r lle a'r cyfleusterau sydd ar gael i'n cymunedau.

Ein huchelgais yw y bydd pob cyfleuster sy'n derbyn buddsoddiad yn ymrwymo i ddarparu asedau i'w defnyddio gan y gymuned os bydd galw am hynny yn lleol.

Yn ogystal, cyhoeddwyd adroddiad 'Increasing the Use of School Facilities' y llynedd gan Sefydliad Polisi Cyhoeddus Cymru ynghylch sut y gellir defnyddio cyfleusterau ysgolion mewn modd ehangach gan gymunedau. Mae fy swyddogion yn gweithio ar ddatblygu argymhellion yr adroddiad i hyrwyddo'r defnydd o gyfleusterau ysgolion gan gymunedau.

Rwy'n cefnogi'n gryf y defnydd o'n hasedau gan y gymuned ehangach, a fydd yn ein helpu i sicrhau gwell gwerth ar gyfer ein buddsoddiadau. Mae'n bwysig bod fy swyddogion yn parhau i ymgysylltu â'u cydweithwyr ar draws ein hadrannau portffolio, i sicrhau nad ydym yn esgeuluso unrhyw ryngddibyniaeth neu gyfle i ddarparu cefnogaeth ar y cyd a galluogi ymdrechion.

Yn gywir



**Kirsty Williams AC/AM**

Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg  
Cabinet Secretary for Education



**Elin Jones AC, Llywydd**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**Elin Jones AM, Presiding Officer**

National Assembly for Wales

Lynne Neagle AC  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1NA

18 Gorffennaf 2017

Annwyl Lynne

### **Senedd Ieuenctid**

Roeddwn am roi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi am y prosiect Senedd Ieuenctid gan i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben yn ddiweddar ar 28 Mehefin.

Cymerodd dros 5,000 o bobl ifanc ran yn yr ymgynghoriad, gyda thîm Addysg ac Allgymorth y Cynulliad yn darparu dros 150 o weithdai a digwyddiadau ymgynghori gydag ysgolion a grwpiau ieuenctid ledled Cymru. Mae hwn yn ymateb aruthrol ac ymgysylltodd pobl ifanc o bob awdurdod lleol ac o nifer o grwpiau anodd eu cyrraedd â ni, a llawer ohonynt yn gwneud hynny am y tro cyntaf.

Cynhaliodd llawer o sefydliadau ac ysgolion eraill weithdai ymgynghori o fewn eu rhwydweithiau eu hunain, gan gynnwys rhai o'r sefydliadau hynny sydd ar ein grŵp llywio senedd ieuenctid.

Mae'r data a gafwyd o'r ymatebion ymgynghori hyn bellach yn cael eu dadansoddi gan gwmni ymchwil annibynnol, allanol - Beaufort Research - a disgwyliwn gael rhai canfyddiadau cychwynnol ym mis Awst. Wedi hynny, bydd papur yn cael ei gyflwyno i'r Comisiwn ar ddiwedd mis Medi pan fydd penderfyniad yn cael ei wneud ar sut i fwrw ymlaen â'r prosiect yn seiliedig ar ganlyniadau'r ymgynghoriad

Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi wrth i'r prosiect ddatblygu wrth gwrs.

Yn gywir

**Elin Jones AC**

**Llywydd**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA

Llywydd@cynulliad.cymru

www.cynulliad.cymru

0300 200 7403

**National Assembly for Wales**

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA

Llywydd@assembly.wales

www.assembly.wales

0300 200 7403

**Tudalen y pecyn 9**

## Eitem 5.5

Vaughan Gething AC/AM

Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon

Cabinet Secretary for Health, Well-being and Sport



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Eich cyf/Your ref : P-05-754

Ein cyf/Our ref : VG/01470/17

David Rowlands AM

Chair - Petitions Committee

National Assembly for Wales

Ty Hywel

Cardiff Bay

Cardiff

CF99 1NA

[government.committee.business@wales.gsi.gov.uk](mailto:government.committee.business@wales.gsi.gov.uk)

25 July 2017

Dear David,

I am writing following the letter of 19 June following my response of 10 May regarding Petition P-05-754 and the Committee's further questions about CAMHS.

The committee asked '*whether it is typical across Wales for children with learning disabilities not to be able to access CAMHS crisis care teams*'. CAMHS crisis teams are for acute mental illness crisis. If a child has this then they should be seen, irrespective of whether they have a learning disability (LD) for an initial assessment and treatment if it is thought they have mental illness or disorder. All Health Boards have enhanced capacity for treatment of LD following additional funding in 2011.

The committee also asked '*whether there are any plans to expand access to these services*'. The Together for Children and Young People (T4CYP) Neurodevelopment work-stream is beginning to identify the support needed for LD children. We would hope that the evidence produced by the work-stream will be used by local multiagency planning groups to deliver their responsibilities to the families and children of this group, supported by Social Services and Wellbeing (Wales) Act and Wellbeing and Future Generations Act.

In addition to the work of T4CYP, the cross government learning disability transformation programme will review existing policies, frameworks and provision and develop proposals for action at local, regional and national level designed to strengthen service delivery and improve its sustainability. The review will look at health, social care, education, employment, skills and housing services for people with Learning Disabilities. It will also consider funding arrangements, commissioning and workforce themes for example and a detailed implementation framework will be produced.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru)  
[Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales](mailto:Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 10

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.




Health Boards and local authorities will shape their care and support services based on the needs of their population. They have recently published the first combined population assessment reports on the health board footprint. These assessments provide a clear and specific evidence base to inform a range of planning and operational decisions, including in relation to needs for mental health services in an area.

Regional partnership boards, made up of the health board, local authorities, third sector and others in each region must prepare area plans by April 2018 setting out how they will respond to the care and support needs identified in the population assessment. This will include consideration of specific core themes including children and young people and mental health.

The needs of children with a learning disability, including mental health needs should be met where possible by generic services. Where these needs extend to more specialised or acute support there must be arrangements in place to facilitate access to that support. Through the Social Services and Well-being (Wales) Act we are driving integration across statutory partners to ensure the pathways to specialist health and social care are in place for individuals.

Yours sincerely,

A handwritten signature in black ink, reading 'Vaughan Gething'. The signature is fluid and cursive, with the first name 'Vaughan' and the surname 'Gething' clearly distinguishable.

**Vaughan Gething AC/AM**

Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon  
Cabinet Secretary for Health, Well-being and Sport

## Item 5.6

Lynne Neagle AC

Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

26 Gorffennaf 2017

### Consortia Addysg Rhanbarthol

Annwyl Lynne

Cynhaliodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ymchwiliad byr i ganfyddiadau memorandwm yr Archwilydd Cyffredinol ar [Sicrhau gwelliannau yn y cymorth i ysgolion trwy gonsortia addysg rhanbarthol – adolygiad o'r cynnydd](#), a gyhoeddwyd ar 3 Tachwedd 2016. Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y pedwar consortiwm rhanbarthol, Estyn a Llywodraeth Cymru.

Roedd y gwaith hwn yn rhannol i lywio ymateb y Pwyllgor i Bapur Gwyn Llywodraeth Cymru, sef 'Diwygio llywodraeth leol: Cadernid ac adnewyddiad'. Rwyf wedi atodi dyfyniad o'r ymateb hwnnw sy'n crynhoi barn y Pwyllgor ar y consortia fel model ar gyfer rhanbartholi.

Yn ogystal â hyn roedd y Pwyllgor yn awyddus i edrych ar y materion a godwyd yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol a'r materion ehangach sy'n codi o adroddiadau arolygu Estyn.

Cododd y Pwyllgor nifer o faterion gyda'r Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol dros Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus yn codi o'r sesiwn dystiolaeth, y gall eich Pwyllgor fod am eu codi fel rhan o unrhyw waith a wneir ar y Consortia Rhanbarthol.



## **Rôl y Consortia yn yr Academi Arweinyddiaeth**

Roedd gan y Pwyllgor ddiddordeb arbennig yn rôl arfaethedig y consortia o fewn yr academi arweinyddiaeth. Mewn ymateb i'n llythyr, dywedodd y Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol wrth y Pwyllgor ei bod yn rhy gynnar yn y gwaith o gwmpasu'r Academi i ddisgrifio'r rôl y gall y Consortia ei chwarae o fewn y sefydliad yn y dyfodol yn llawn. Credwn ei bod yn bwysig bod y Consortia naill ai'n cael eu cynnwys o fewn yr academi hon, gydag achrediad priodol neu bod model mewnol cyfwerth yn cael ei ddatblygu i sicrhau bod gan y Consortia y dyfnder angenrheidiol mewn arweinyddiaeth i fod yn llwyddiant.

## **Ymgynghorwyr Heriau**

Mynegodd y Pwyllgor bryderon ynghylch y ffaith bod carfan gyfyngedig o ymgynghorwyr heriau cymwys a phrofiadol o fewn y consortia, ac mae'n pryderu am allu'r Consortia i ddarparu ar lefel strategol. Dywedodd y Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol yn ei ymateb i'r Pwyllgor y bydd cynnydd ar y cyd y consortia tuag at sicrhau ansawdd a nifer yr ymgynghorwyr heriau yn parhau i fod yn ffocws yr adolygiad gan Lywodraeth Cymru, drwy gyflwyno eu cynlluniau busnes ac yn ystod cyfarfodydd Herio ac Adolygu. Credwn y gallai hyn warantu gwaith craffu pellach gan ei fod yn hanfodol y gall y consortia gyflawni ar lefel strategol.

## **Canlyniadau consortia**

Canfu'r Pwyllgor ei bod yn anodd priodoli canlyniadau i'r Consortia, a oedd yn ei gwneud yn anodd darlunio eu rôl a'u llwyddiannau. Awgrymodd y Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol fod angen amser i ymdrechion y consortia gryfhau'r gwerthusiad o'u heffaith. Mae'n bwysig gallu gwerthuso'r canlyniadau i sicrhau eu bod yn darparu ac i allu nodi canlyniadau'r consortia yn hawdd er mwyn gwneud eu rôl, eu diben a'u gwerth i'r proffesiwn addysgu a'r cyhoedd yn glir.



Rwyf wedi atodi'r ohebiaeth berthnasol rhwng y Pwyllgor a'r Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol i'r llythyr hwn. Rwy'n gobeithio bod hyn yn ddefnyddiol i'ch pwyllgor, a byddai gennyf ddiddordeb mewn cael y wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw waith a wneir gan eich pwyllgor yn y maes hwn.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, reading 'Nick Ramsay'. The signature is fluid and cursive, with a long horizontal stroke extending from the end of the name.

Nick Ramsay AC  
Cadeirydd



## Consortia Addysg Rhanbarthol – model ar gyfer rhanbartholi

1. Yn dilyn cyhoeddi memorandwm yr Archwilydd Cyffredinol a oedd yn rhoi'r diweddaraf am hynt y gwaith mewn ymateb i'r argymhellion yn ei adroddiad ym mis Mehefin 2015 ['Sicrhau gwelliannau yn y cymorth i ysgolion trwy gonsortia addysg rhanbarthol'](#), cytunodd y Pwyllgor i edrych ar y materion yn codi o hyn, ac ystyried a oedd unrhyw wersi i'w dysgu ynghylch rhanbartholi.
2. Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y pedwar consortiwm ac Estyn yn ei gyfarfod ar 27 Mawrth. Yn ogystal â hyn, gwnaethom gynnal arolwg gyda gweithwyr addysgu proffesiynol a chawsom ohebiaeth ysgrifenedig gan NASUWT Cymru. Mae gan y Pwyllgor nifer o sylwadau yn deillio o'r sesiynau hyn yr ydym yn credu y dylai'r Ysgrifennydd Cabinet eu hystyried wrth gynllunio ar gyfer rhanbartholi.

### *Mandad clir*

3. Roedd y Pwyllgor yn pryderu y bu diffyg eglurder o'r cychwyn ynghylch rôl y consortia. Er ein bod yn cydnabod y bu cynnydd da o ran datblygu rôl y consortia ers y memorandwm diwethaf gan yr Archwilydd Cyffredinol, rydym yn pryderu ynghylch y dystiolaeth a roddwyd bod y cyfeiriad cenedlaethol ar gyfer y consortia wedi bod yn aneglur o'r cychwyn.
4. Roedd pob un o'r tystion yn dweud mai un o'r gwersi allweddol i'w dysgu oedd bod angen mwy o amser ar y cychwyn i amlinellu nodau a chyfeiriad i'r cyrff rhanbarthol sy'n cael eu sefydlu, gan ei bod wedi cymryd cryn dipyn o amser i fynd i'r afael â hyn a'i fod wedi effeithio ar y gallu i gyflawni.
5. Wrth drafod yr hyn yr oedd yn meddwl y gellid fod wedi'i wneud yn wahanol, dywedodd Hannah Woodhouse, Rheolwr Gyfarwyddwr Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De, wrthym:

“... getting the national model really clear at the beginning, before September 2012, in terms of responsibilities, budget, governance, success measures, capacity expectations.”<sup>1</sup>

6. Cytunodd Simon Brown, cyfarwyddwr strategol Estyn, fod y model cenedlaethol wedi bod o gymorth o ran gwella, a hefyd:

---

<sup>1</sup> Cofnod y Trafodion, 27 Mawrth 2017, Paragraff 115



“... one of the issues with the national model when it first emerged in 2012 was it was a model that was developing quite quickly and some of that clarity wasn’t there in the original model”<sup>2</sup>

7. Mae'r Pwyllgor yn cytuno bod angen gosod cyfeiriad cenedlaethol clir, ond mae'n credu y dylai'r system fod yn hyblyg, yn hytrach na bod yn rhy ragnodol, o ran sut i gyflwyno'r darlun cenedlaethol. Mae gan bob rhanbarth heriau gwahanol i fynd i'r afael â nhw, e.e. natur wledig, darpariaeth cyfrwng Cymraeg a bod gweithio rhanbarthol yn llwyddiant, ond rydym yn credu bod hyblygrwydd o dan strategaeth genedlaethol yn hanfodol.
8. Roedd y Pwyllgor yn pryderu bod ymdeimlad o gystadleuaeth rhwng y cyrff yn ystod y cyfnod cychwynnol o sefydlu'r consortia. Er ein bod yn croesawu'r ffaith eu bod bellach yn gweithio gyda'i gilydd gydag ymdeimlad o gydweithredu, rydym yn parhau i bryderu am sut y mae'r consortia yn gweithio gyda'i gilydd ac yn rhannu gwybodaeth. Er enghraifft, roedd yn ymddangos mai prin oedd y wybodaeth ar draws consortia am y prosiectau ymchwil sy'n digwydd ym mhob consortiwm.
9. Wrth symud ymlaen i ranbartholi gwasanaethau eraill, rydym yn credu y dylid dysgu'r wers o brofiadau'r consortia ac y dylai Llywodraeth Cymru bennu canllawiau a fframweithiau clir i'r rheini sy'n gyfrifol am ddarparu'n rhanbarthol i weithio tuag atynt o'r cychwyn.

#### *Yr ôl troed rhanbarthol*

10. Trafododd y Pwyllgor gyda'r dystion y risgiau a'r manteision o newid yr ôl troed rhanbarthol ar gyfer y consortia yn sgil unrhyw newidiadau i'r strwythurau rhanbarthol yng Nghymru yn y dyfodol.
11. Dywedodd y dystion fod nifer o risgiau o newid y strwythurau presennol, oherwydd y gallai hyn erydu cynnydd cadarnhaol y consortia at welliannau addysgol. Ar ben hynny, roedd pryderon y gellir gwneud newidiadau i strwythur y consortia addysgol rhanbarthol i fynd i'r afael â rhai o broblemau'r strwythur llywodraeth leol, oherwydd y dylai'r ffocws ar gyfer unrhyw newidiadau i'r consortia fod yn seiliedig ar welliant addysgol.
12. Cawsom dystiolaeth ynghylch pryderon sylweddol am y nifer o arweinwyr ysgolion da a'r risg posibl o drosiant staff yn sgil amgylchedd ansicr, a allai achosi ansefydlogrwydd. Mae'r Pwyllgor yn credu ei bod yn bwysig gosod llwybr clir ar gyfer y strwythur rhanbarthol dros y tymor canolig i'r tymor hir i roi'r sicrwydd sydd ei angen ar bobl.

---

<sup>2</sup> Cofnod y Trafodion, 27 Mawrth 2017, Paragraff 361



13. Roedd peth cytundeb ymhlith y tystion fod budd amlwg i unrhyw fodel rhanbarthol fod yn cydffinio â gwasanaethau presennol yn y dyfodol. Ni chafodd y Pwyllgor unrhyw dystiolaeth glir ynghylch a fyddai'n well i ddilyn strwythur y byrddau iechyd lleol neu'r rhanbarthau datblygu economaidd. Fodd bynnag, awgrymodd Estyn fod rhywfaint o fudd i ddefnyddio'r ffiniau economaidd, oherwydd:

“...if you think of pre-16 education going through into post-16, and an alignment, so that you’ve got schools and post-16 providers mapping the skillset in a region to the economic skills of a particular region, using labour market information ultimately, the economic footprint on an economic model tends to make sense, because you’re then developing learners who’ve got the necessary skills for the economic market within their region, assuming there’s not a lot of cross-Wales movement of labour at the moment.”<sup>3</sup>

14. O ystyried bod y consortia wedi'u sefydlu a'i bod yn ymddangos i fod yn gwella ac yn aeddfedu, rydym yn credu bod gwerth mewn cynnal y strwythur hwn (gan gydnabod y gallai fod rhai addasiadau bach).

#### *Llywodraethu ac atebolrwydd mewn strwythur rhanbarthol*

15. Cododd y Pwyllgor nifer o bryderon ynghylch y berthynas rhwng awdurdodau addysg lleol a chonsortia addysg rhanbarthol, ac a oes digon o eglurder rhwng eu rolau i ganiatáu digon o atebolrwydd i'r etholwyr.
16. Mae arweinyddiaeth yn allweddol er mwyn i weithio rhanbarthol fod yn llwyddiant. Mae'n hanfodol bod aelodau etholedig yn ymwneud â'r broses a'u bod yn deall eu rôl yn y broses graffu.
17. Roedd ymatebion y tystion yn nodi bod hwn yn fater byw sy'n cael ei ystyried a'i ddatblygu o hyd. Fel Pwyllgor, byddem yn annog bod y trefniadau llywodraethu yn cael eu hystyried yn drylwyr i sicrhau bod y cyfrifoldebau'n glir a bod modd i'r etholwyr barhau i weld yn amlwg pa gynrychiolwyr lleol sy'n gyfrifol.
18. Nid yw Estyn wedi rhoi unrhyw farn arolygu ar effaith y consortia, ac yn ystod y sesiwn dystiolaeth amlinellodd nifer o anawsterau wrth wahanu cyflawniadau ysgolion unigol ac effaith y consortia. Dywedodd na fyddai'n ceisio gwneud hynny yn y dyfodol agos.
19. Rydym yn credu bod angen ystyried sut i farnu llwyddiant/effaith gweithio rhanbarthol lle mae hyn yn parhau i orwedd ochr yn ochr â chyfrifoldebau

---

<sup>3</sup> Cofnod y Trafodion, 27 Mawrth 2017, Paragraff 273



lleol. Yn achos addysg, mae ysgolion unigol yn cael dylanwad sylweddol ac yn gyfrifol am benderfyniadau yn y pen draw, sy'n ei gwneud yn gymhleth ar y gorau i weld beth yw effaith y consortia rhanbarthol.

20. Hefyd, roedd yr arolwg a gynhaliwyd gan y Pwyllgor yn dangos bod llawer yn y proffesiwn addysgu heb fawr o wybodaeth/dealltwriaeth o'r hyn y mae'r consortia yn ei wneud. Gan gydnabod y ddadl a gyflwynwyd gan ein tystion mai gwella ysgolion a chanlyniadau cadarnhaol yw'r hyn sy'n bwysig, rydym yn credu, er mwyn i weithio rhanbarthol fod yn llwyddiant, bod angen cydnabod ei fod yn cael effaith gadarnhaol.





Owen Evans,  
Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol, Addysg a  
Gwasanaethau Cyhoeddus  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd, CF10 3NQ

22 Mai 2017

### **Consortia Addysg Rhanbarthol**

Annwyl Owen,

Diolch am ddod i gyfarfod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 15 Mai 2017. Roedd y sesiwn yn ddiddorol ac yn ddefnyddiol i'r Pwyllgor. Yn ogystal â'r pwyntiau gweithredu y mae'r Clercod wedi cysylltu â'ch swyddfa yn eu cylch, roedd gan y Pwyllgor nifer o sylwadau/cwestiynau ar ôl y cyfarfod ynghylch safbwynt Llywodraeth Cymru ar gonsortia addysg rhanbarthol (y Consortia):

- Mae'r Pwyllgor yn croesawu cyhoeddiad yr Ysgrifennydd Cabinet ar 16 Mai ynghylch sefydlu Academi Arweinyddiaeth Addysgol Genedlaethol. Byddem yn croesawu esboniad pellach o rôl y Consortia fel rhan o'r academi, yn benodol a fydd yn cynnwys cynghorwyr o'r Consortia ac achrediad ar gyfer cynghorwyr y Consortia. Os na chaiff y Consortia eu cynnwys yn y fath fodd, a oes model mewnol o fewn y Consortia?
- Mae'r Pwyllgor yn pryderu bod nifer gyfyngedig o gynghorwyr her cymwys a phrofiadol yn y Consortia. O ystyried yr her hon, byddem yn croesawu eich barn ar allu'r Consortia i ddarparu ar lefel strategol a beth y gellir ei wneud i wella nifer y cynghorwyr her o safon.
- O ystyried y dystiolaeth a glywodd y Pwyllgor ei bod yn anodd priodoli canlyniadau i'r Consortia, a bod diffyg eglurder ynghylch eu rôl – a oes gan



y Consortia ryngwyneb cyhoeddus cyffredin, gyda set ddata clir a chyfredol, sy'n hygyrch i'r cyhoedd ledled Cymru, ac os nad oes, pam lai?

- Disgwylir i waith Her Ysgolion Cymru ddod i ben ar ddiwedd blwyddyn academiaidd 2016/17 ac mae'r Pwyllgor wedi gofyn am ddata sy'n dangos canran y gwelliant yn y pynciau TGAU allweddol yn dilyn rhaglen Her Ysgolion Cymru. Byddem hefyd yn hoffi rhagor o wybodaeth am y gwelliant cymharol ym mherfformiad yr ysgolion sy'n rhan o Her Ysgolion Cymru o gymharu â'r rhai nad ydynt yn rhan o Her Ysgolion Cymru, o ran canlyniadau TGAU.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb i'r cwestiynau hyn erbyn 19 Mehefin 2017.

Yn gywir,



Nick Ramsay AC  
Cadeirydd



**Owen Evans**

Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol / Deputy Permanent Secretary

Y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus  
Education and Public Services Group



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Nick Ramsay AM  
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1NA

15 Mehefin 2017

Annwyl Nick

Yn dilyn fy ymddangosiad gerbron y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 15 Mai ac mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 22 Mai gweler yn atodedig wybodaeth gan y consortia addysg rhanbarthol sy'n dangos i ba raddau y gwneir gwaith rhwng ysgolion ar draws y rhanbarthau. Mae pob rhanbarth wedi darparu trosolwg lefel uchel o'u gwaith rhwng ysgolion ac rwy'n atodi'r rhain yn (Dogfen 1).

Cytunais hefyd i rannu gyda chi'r gwelliant canrannol yn y prif bynciau TGAU ar gyfer ysgolion Her Ysgolion Cymru o gymharu ag ysgolion nad ydynt yn rhan o Her Ysgolion Cymru. Rwyf wedi atodi'r rhain yn (Dogfen 2).

Gofynnodd y Pwyllgor hefyd am wybodaeth bellach ynghylch y defnydd o Moodle. Menter sector preifat yw Moodle felly nid yw Llywodraeth Cymru yn rhagnodi pa wasanaethau y dylai ysgolion eu caffael ac felly nid ydym yn casglu unrhyw wybodaeth am gyfraddau defnydd neu gofrestru. Drwy'r rhaglen Dysgu yn y Gymru Ddigidol, mae Llywodraeth Cymru yn darparu ystod o dechnolegau digidol a ariennir yn ganolog ar gyfer pob ysgol a gynhelir ledled Cymru. Drwy'r ystod eang o adnoddau digidol sydd ar gael drwy blatfform Hwb, mae athrawon yn gallu sefydlu'r defnydd priodol o dechnoleg er mwyn trawsnewid eu harferion yn y dosbarth. Mae'r adnoddau sydd ar gael yn cynnig cyfleuster tebyg i Moodle i ysgolion. Mae'r defnydd o blatfform Hwb wedi cynyddu'n gyson ers ei lansio ym mis Awst 2014, ac erbyn hyn mewngofnodir i'r safle ryw 28,000 o weithiau y diwrnod ac edrychir ar ryw 3.2m o'i dudalennau bob mis. Gallwn weld hefyd fod dros 84% o ysgolion ledled Cymru yn mewngofnodi 10 neu fwy o weithiau bob mis.



**BUDDSODDWYR** | **INVESTORS**  
**MEWN POBL** | **IN PEOPLE**

Parc Cathays • Cathays Park  
Caerdydd • Cardiff  
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 0300 025 5381  
[owen.evans3@wales.gsi.gov.uk](mailto:owen.evans3@wales.gsi.gov.uk)  
Gwefan • website: [www.wales.gov.uk](http://www.wales.gov.uk)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 21

Roedd y Pwyllgor hefyd yn awyddus i glywed mwy am ein hymweliad diweddar â'r Ffindir. Rwyf wedi atodi'r brif wybodaeth o'n hymweliad yn (Dogfen 3).

Yn eich llythyr dyddiedig 22 Mai gofynnwyd am eglurhad pellach o rôl y consortia addysg rhanbarthol yn yr academi arweinyddiaeth. Ar hyn o bryd caiff y consortia eu cynrychioli ar Fwrdd Cysgodol yr Academi gan un o Reolwyr Gyfarwyddwyr y consortia – Debbie Hartevelld o'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg. Megis cychwyn y mae'r gwaith o ddatblygu'r Academi fel y cyhoeddwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet ar 16 Mai. Fel yr amlinellwyd, mae'r Bwrdd Cysgodol wedi datblygu gweledigaeth ar gyfer yr Academi ac maent wedi gwneud argymhelliad i Ysgrifennydd y Cabinet y dylai'r Academi gael ei sefydlu fel cwmni cyfyngedig drwy warant.

Bydd hyn yn galluogi strwythur llywodraethu hyblyg sy'n fwy addas ar gyfer cynrychiolaeth o'r sector, a fydd ar ffurf gyfreithiol a ffefrir gan y Comisiwn Elusennau, ac sy'n cyflogi staff yn ei rinwedd ei hun. Mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi cytuno i'r argymhelliad hwn ac wedi gofyn i swyddogion ddechrau ystyried yr amserlen a'r adnoddau sydd eu hangen i sefydlu'r Academi, yng ngwanwyn 2018, fel cwmni cyfyngedig drwy warant. Y disgwyliad yw y bydd yr Academi yn sefydliad bach a hyblyg gyda bwrdd strategol bach, dan arweiniad prif weithredwr. Ein nod yw parhau i ymgynghori ar rôl a chylch gwaith llawn yr Academi a phrofi'r amserlenni ar gyfer y camau nesaf. Cynhelir cyfres o sioeau teithiol rhanbarthol felly yn ystod yr wythnos yn dechrau 12 Mehefin. Ein bwriad o hyd, yn seiliedig ar gyngor y Bwrdd Cysgodol, yw y bydd yr Academi yn: broceru ac yn sicrhau ansawdd ystod o raglenni; yn cyfrannu at sicrhau darpariaeth ar draws rhanbarthau; yn cefnogi arweinyddiaeth ar bob lefel; ac yn gweithio gydag eraill i nodi a chefnogi arweinwyr presennol ac arweinwyr y dyfodol. Mae'n rhy gynnar yn y broses o bennu cwmplas yr Academi i ddisgrifio'n llawn y rôl y gallai'r Consortia ei chwarae o fewn y sefydliad yn y dyfodol.

Wrth i'r gwaith fynd rhagddo ac wrth bennu ystod llawn y swyddogaethau ar gyfer yr Academi byddwn mewn sefyllfa well i ddisgrifio sut y gallai'r Academi a phrif randdeiliaid megis consortia gydweithio. Fodd bynnag, rydym ni a'r Bwrdd Cysgodol yn ymrwymedig i sicrhau bod yr Academi yn gweithio'n agos â rhanddeiliaid i sicrhau ei bod yn cyfrannu at sicrhau cysondeb o fewn y system. Wrth inni symud ymlaen ac wrth i'r Academi gael ei chreu, gyda phenodiad ei bwrdd cwmni ffurfiol a Phrif Swyddog Gweithredol, cyfrifoldeb yr Academi ei hun fel sefydliad annibynnol fydd penderfynu ar lawer o'r materion hyn. Mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi ymrwymo i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau'r Cynulliad.

Nodaf eich pryderon ynghylch y canfyddiad bod cohort cyfyngedig o ymgynghorwyr her cymwys a phrofiadol. Er bod rhagor o waith i'w wneud, credaf fod y pedwar rhanbarth yn parhau i wneud cynnydd yn hyn o beth ac maent wedi cryfhau eu cynigion. Datblygwyd y cynigion hyn gan ystyried ein nod ar gyfer system addysg hunanwella sy'n gofyn am symud o ddibyniaeth ar gefnogaeth ganolog ar gyfer gwelliant i fodel gan-ysgolion-ar-gyfer-ysgolion sy'n meithrin gallu ar gyfer cyflawni gwelliannau ar y cyd.

Yn y cyd-destun hwn, er enghraifft:

- Mae Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De yn adolygu ei ddull o leoli ymgynghorwyr her ac yn ystyried cynnwys mwy o secondiadau gan benaethiaid a dirprwy benaethiaid ysgolion effeithiol. Maent yn recriwtio'n weithredol i'w gweithlu ac yn cryfhau'r hyfforddiant i ymgynghorwyr her wrth symud ymlaen
- Mae'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg yn parhau i feithrin gallu er mwyn darparu cymorth a her, gan sicrhau sefydlogrwydd wrth ddefnyddio ymgynghorwyr her mewn

ysgolion a sefydlu hyfforddiant a datblygiad i ganolbwyntio ar y prif sgiliau sydd eu hangen ar gyfer y rôl. Mae arolygon ysgolion annibynnol o fewn y rhanbarth yn dangos gwelliannau gwirioneddol yng ngwaith ymgynghorwyr her a'r gefnogaeth a roddir i ysgolion i'w helpu i wella.

- Mae'r consortiwm Ein Rhanbarth ar Waith (ERW) wedi sicrhau ymrwymiad ar draws ei awdurdodau lleol i sicrhau cyflenwad llawn o Ymgynghorwyr Her sy'n cyrraedd y Safonau Cenedlaethol gofynnol ac yn dilyn Cod Ymddygiad ERW. Yn ogystal, mae'n cryfhau ei ddulliau o leihau amrywioldeb yng ngwaith ymgynghorwyr her unigol, gan ddarparu hyfforddiant penodol, cyflwyno hunanarfarniadau i ymgynghorwyr her ac adolygu ei lawlyfr a chanllawiau i ymgynghorwyr her er mwyn sicrhau eu bod yn canolbwyntio ar y galluoedd craidd sydd eu hangen ar gyfer y rôl.
- Yn yr un modd mae'r consortiwm Gwasanaeth Effeithiolrwydd (GwE) yn cryfhau ei ddulliau o sicrhau gallu a safon ei ymgynghorwyr her, ac mae cynllun gwerthuso cadarn ar waith i asesu effaith ei raglen her a chymorth, a fydd yn llywio ei ddull gweithredu ar gyfer y dyfodol.

Mae consortia yn gweithio ar y cyd ac yn cynllunio mewn partneriaeth i ddysgu oddi wrth ei gilydd, gan rannu arbenigedd ac adnoddau lle y bo'n briodol. Bydd eu cynnydd ar y cyd tuag at sicrhau safon a nifer yr ymgynghorwyr her yn parhau i gael ei adolygu gan Lywodraeth Cymru, drwy'r broses o gyflawni eu cynlluniau busnes ac yn ystod cyfarfodydd Her ac Adolygu.

Rwy'n hyderus bod gan y consortia y gallu a'r cymhwysedd i ddarparu ar lefel strategol a byddwn yn parhau i gefnogi eu hymgyngorwyr her drwy ystod o ddulliau cymorth hyfforddi cenedlaethol.

O ran eich pwynt ynglŷn â phriodoli canlyniadau i gonsortia, mae'n bwysig yn gyntaf cydnabod bod gwell canlyniadau fel arfer yn deillio o gyfraniad ar y cyd pob un o'r partneriaid yn y system. At hynny, anaml iawn y gellir priodoli canlyniadau i un sefydliad yn unig, o fewn unrhyw fodel gwerthusol. Serch hynny, credaf na ellir tanseilio nac anwybyddu rôl consortia wrth gefnogi ysgolion i wella. Clywsoch fod y consortia i gyd yn atgyfnerthu eu dulliau o werthuso effaith eu gwaith a byddwn yn dadlau bod angen rhoi digon o gyfle ac amser i'r ymdrechion hyn ddwyn ffrwyth. Byddwn yn monitro eu cynnydd.

O ran y canfyddiad bod diffyg eglurder ynghylch rôl consortia, rhaid gwneud mwy er bod hon yn sefyllfa sy'n gwella ledled Cymru. Mae angen i'r consortia barhau i wneud mwy o'r hyn y maent yn ei wneud eisoes – cynyddu eu hymgyssylltiad â'r sector. Gwyddom eu bod yn gwneud hyn mewn sawl ffordd, yn cynnwys arolygon, trafodaethau wyneb yn wyneb, digwyddiadau, cylchlythyron, a chyfryngau cymdeithasol. Yn ogystal, mae gan bob un ohonynt grwpiau Penaethiaid sefydledig a rhwydweithiau gwella ysgolion y gellir adeiladu arnynt a'u hymestyn i rannau eraill o'r proffesiwn. Bydd y camau hyn yn helpu i wella'r dull o frandio gwaith y consortia o fewn pob rhanbarth ynghyd â gwella'r ymwybyddiaeth ohono.

Mewn perthynas â Llywodraeth Cymru, a lle y ceir dryswch o hyd ynghylch rolau, cyfrifoldebau, ac atebolrwydd, mae'r gwaith o ailysgrifennu'r Model Cenedlaethol a'r adolygiad sylfaenol o'n systemau atebolrwydd yn rhoi cyfle i ddarparu mwy o eglurder. Gwneir hyn ar y cyd â rhanddeiliaid ym mhob rhan o'r system.


Er hyn, yn y cyfamser mae sawl ffordd y gall y cyhoedd weld setiau data mewn perthynas â pherfformiad ysgolion ym mhob rhanbarth. Mae'r rhain yn cynnwys ffynonellau Llywodraeth

Tudalen y pecyn 23

Cymru megis Fy Ysgol Leol, StatsCymru, Cyhoeddiadau Ystadegol, a cheisiadau am ddata penodol a thrwy wefannau consortia unigol.

Diolch i chi unwaith eto am eich diddordeb fel Pwyllgor a gobeithiaf y bydd yr uchod yn ateb eich cais am wybodaeth bellach.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'G. O. Evans' with a stylized flourish at the end.

**Owen Evans**

## Trosolwg lefel uchel o weithio ysgol i ysgol

Rhanbarth: GwE

AGWEDD	ENGHREIFFTIAU O FODELAU YSGOL I YSGOL A DDEFNYDDIR
<b>Gwella ysgol</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gweithdai Adroddiad Hunan Arfarnu a Cynllun Datblygu Ysgol (CDY) wedi'u cysylltu â fframwaith newydd ESTYN a blaenoriaethau cenedlaethol/rhanbarthol/Awdurdodau Lleol. Penaethiaid ac Uwch Dimau Arwain mewn sesiwn rhannu arferion da a gweithdai cyd-lunio dogfennau.</li> <li>Ysgol Uwchradd yn cefnogi ysgol gynradd gyda blaenoriaethau cynllun gweithredu ôl-arolwg Estyn, h.y. Ysgol Bryn Elia efo Ysgol Hen Golwyn ac Ysgol Sŵn y Don.</li> <li>Pennaeth ar secondiad/wedi'i gomisiynu i weithio gyda Phennaeth angen cymorth h.y. Pennaeth Ysgol Trefriw yn gweithio am ddiwrnod yr wythnos gyda Phennaeth Ysgol Llanddoged /Ysgol Ysbyty Ifan ar faterion gwella ysgol.</li> <li>(Grŵp o ysgolion Categori Melyn): Yr Hendre, Y Gelli, Cymerau, Dolbadarn. Gweler Arweinyddiaeth isod. Roedd hyn yn cynnwys defnyddio adroddiadau monitro a chynllunio strategol.</li> </ul>
<b>Cefnogaeth Gwricwlaidd</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Rhannu staff ysgolion – adnabod unigolion i'w secondio mewn ysgolion sydd angen cymorth h.y. dirprwy Ysgol Bodafon ar secondiad yn Ysgol Sŵn y Don i arwain ar Ddysgu ac Addysgu/Ymddygiad.</li> <li>Ffeirio athrawon rhwng amryw o ysgolion cryf – rhannu arbenigedd.</li> <li>Cyd gynllunio cynlluniau gwaith a gweithredu'r fframwaith llythrennedd a rhifedd h.y. Dyffryn Conwy ac ysgolion clwstwr.</li> <li>Ymarferwyr neu arweinwyr canol wedi'u hadnabod i dargedu ymyrraeth a chefnogaeth mewn ysgolion ble mae angen gwelliant.</li> </ul>
<b>Arweinyddiaeth</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Partneriaethau cydweithredol rhwng Penaethiaid h.y. cynghrair traws Awdurdodau Lleol i ysgolion sy'n edrych ar amddifadedd trefi arfordirol – cyswllt â chadwyn academi Blackpool.</li> <li>Cydweithio clwstwr h.y. Cymuned Dysgu Rhyl – YH yn rhan o'r grŵp. Prosiectau Ymchwil Gweithredol.</li> <li>Grŵp arweinyddiaeth Uned Cyfeirio Disgyblion i</li> </ul>

	<p>edrych ar ddatblygiad ysgol, addysgeg a strategaethau ymddygiad. Cynllun gweithredu ar y cyd i roi sylw i anghenion cefnogaeth cyffredin.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Grwpiau cydweithio Penaethiaid ar draws Awdurdodau Lleol h.y. tracio Grant Datblygu Disgyblion (GAD) ac arfarnu ymyraethau – rhannu arferion da a chreu offeryn tracio GAD.</li> <li>• Mentora staff Uwch Dim Arwain (UDA) newydd gan aelodau UDA effeithiol sydd wedi ennill eu plwyf h.y. Uwchradd Rhyl/Brynhafryd.</li> <li>• (Grŵp o ysgolion categori melyn): Yr Hendre, Y Gelli, Cymerau, Dolbadarn. YH yn hwyluso ac yn seiliedig ar: blaenoriaethau CDY cyffredinol – datblygu arweinyddiaeth. Cyfarfodydd a thasgau yn ôl yn eu hysgol i wella arweinyddiaeth, monitro ansawdd, adroddiadau ac ati. Cynnwys Llywodraethwyr.</li> <li>• Amrywiol Raglenni Datblygu yn sefydlu partneriaethau ysgol i ysgol yn canolbwyntio ar rwydweithiau cefnogi arweinyddiaeth cyfoed-i-gyfoed.</li> </ul>
<b>Dysgu ac Addysgu</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Grwpiau cynllunio ac asesu. Ysgolion cynradd yn asesu darnau gwaith efo'i gilydd i helpu gyda safoni a chyd-gynllunio camau nesaf. Hyn wedi digwydd mewn mathemateg, Cymraeg a Saesneg.</li> <li>• Amryw o grwpiau cydweithio ymchwil gweithredol yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod ymyraethau h.y. Safmeds, headsprout, strategaethau ymddygiad cadarnhaol.</li> <li>• Prosiect cydweithio cymorthyddion dysgu. Rhaglen OLEVI Outstanding Teaching Assistant Programme (OTAP). Ymweliadau gan y naill a'r llall a phrosiectau ysgol a chyflwyniadau rhwng ysgolion.</li> <li>• Prosiectau cydweithio Addysgu Rhagorol. Ymweliadau gan y naill a'r llall a phrosiectau ysgol a chyflwyniadau rhwng ysgolion.</li> <li>• Grŵp cydweithio Ysgol Eglwys yn edrych ar gyd-gynllunio llythrennedd a rhifedd mewn Addysg Grefyddol mewn ysgolion a gynorthwyr gan yr eglwys.</li> <li>• (2 ysgol): Ysgol yr Hendre, Ysgol y Gelli: YH yn hwyluso cydweithio agos ar brosiect gwella ansawdd dysgu ac addysgu gyda phwyslais arbennig ar Asesu ar gyfer Dysgu.</li> </ul>



- |  |  |
|--|--|
|  | <ul style="list-style-type: none"> <li>• (Grŵp o Ysgolion Categori Melyn-Gwyrdd): (Eifion Wyn, Y Traeth, Bro Tryweryn, Talsarnau, Cefn Coch, Maenofferen). Gweithgareddau, cyfarfodydd gyda'r pwyslais ar wella agweddau penodol ar ddysgu ac addysgu.</li> <li>• (Grŵp o ysgolion Categori Gwyrdd-Melyn). (Bryngwran, Y Ffridd, Goronwy Owen, Ffrwd Win, Parc y Bont) Gweithgareddau, cyfarfodydd gyda phwyslais ar wella agweddau penodol ar ddysgu ac addysgu/darpariaeth yn y Cyfnod Sylfaen. Mae pob ysgol wedi cynnal diwrnodau agored i aelodau eraill o'r grŵp ymweld. Cyfarfodydd dilynol i drafod yr ymweliadau a phenderfynu ar sut i weithredu yn yr ysgolion unigol.</li> <li>• Amrywiol Raglenni Datblygu wedi sefydlu partneriaethau ysgol i ysgol yn canolbwyntio ar rwydweithiau cefnogi dysgu ac addysgu cyfoed-i-gyfoed.</li> </ul> |
|--|--|

## Trosolwg lefel uchel o weithio ysgol i ysgol

Rhanbarth: ERW

AGWEDD AR:	ENGHREIFFTIAU O FODELAU A DDEFNYDDIR AR GYFER YSGOL I YSGOL
<p><b>Wella ysgolion</b></p>	<p>Partneriaethau ffurfiol, paru ysgolion ar gyfer cymorth hanfodol.</p> <p>Partneriaethau ffurfiol, lefel uchel, hir-dymor, yn canolbwyntio ar wella ysgolion ac sy'n cynnwys uwch-arweinwyr ac arweinwyr canol.</p> <p>Mae ysgolion arweiniol yn rai sy'n perfformio'n dda ac yn medru estyn cefnogaeth i ysgolion sy'n peri pryder.</p> <p>Mae'r holl ysgolion uwchradd sy'n peri pryder ynghlwm (â'r broses). Mae'r effaith ar ganlyniadau ac ar adeiladu capasiti yn yr ysgol yn dda.</p> <p>Gwelliant cydweithredol ffurfiol, o lefel ganolig i godi safonau, sydd wedi ei arwain gan Ysgolion Dysgu Broffesiynol ERW.</p> <p>Mae gan Ysgolion Arweiniol feysydd o gryfder allweddol. Caiff ysgolion eu hariannu i ddarparu diwrnodau mewnol, diwrnodau hyfforddiant, a chymorth i ysgolion eraill. Mae Ysgolion Dysgu Proffesiynol yn cael eu hadnabod yn benodol mewn ardaloedd lle mae gan ERW gapasiti cyfyngedig a lle bo'r angen. Ceir effaith amrywiol, gan fod y lefel o ymgymryd gyda'r gwaith yn amrywio.</p> <p>Mae DOLEN yn ffynhonnell o wybodaeth am ymarferion effeithiol ac ymarfer werth rhannu, sydd ar gael arlein ar gyfer ysgolion. Mae'n gyfeiriadur sy'n cwmpasu'r cwricwlwm, addysgu ac arweinyddiaeth.</p>
<p><b>Gymorth Cwricwlwm/ Addysgu a Dysgu</b></p>	<p>Mae'r rhaglen Arweinwyr Dysgu yn defnyddio ymarferwyr presennol credadwy yn ysgolion i ddarparu cymorth i bynciau craidd ar gyfer pob ysgol uwchradd.</p> <p>Defnyddir yr un model ar gyfer gwyddoniaeth yn y Cynradd.</p> <p>Gwelliant gydweithredol ffurfiol, o lefel ganolig, i godi safonau wedi ei arwain gan Ysgolion Dysgu Broffesiynol ERW.</p> <p>Caiff ysgolion eu hariannu i ddarparu diwrnodau mewnol, diwrnodau hyfforddiant, a chymorth i ysgolion eraill. Mae Ysgolion Dysgu Proffesiynol yn cael eu hadnabod yn benodol mewn ardaloedd lle mae gan ERW gapasiti cyfyngedig a lle bo'r angen.</p> <p>Rhwydweithiau cymorth ar gyfer holl bynciau craidd a phynciau di-graidd. Pob un yn cael eu cefnogi gan feysydd cyd-weithio ac adnoddau eraill Hwb.</p>

	<p>DOLEN – gweler uchod.</p> <p>Mae'r paru o ysgolion neu adrannau ar gyfer cydweithio lefel pwnc neu lefel adrannol wedi'i ffocysu ac yn effeithiol iawn, yn enwedig ar gyfer ysgolion neu athrawon sydd wedi eu hynysu'n fwy.</p>
<b>Arweinyddiaeth</b>	<p>Gwelliant gydweithredol ffurfiol, o lefel ganolig, wedi ei arwain gan Ysgolion Dysgu Broffesiynol ERW. (Bydd y maes yma'n un allweddol am gynyddu capasiti yn 2017-2018 i gydmyffurfio gyda Ysgol Gefnogaeth ERW)</p> <p>Mae'r holl gynnigion hyfforddiant i arweinwyr canol ac uwch-arweinwyr ERW yn cael ei arwain a'i hwyluso gan ysgolion. Mae arweinwyr ysgol presennol wedi cynllunio a darparu'r set gyfan o raglenni ar gyfer grwpiau sy'n datblygu a'r darpar-grwpiau. Mae'r effaith yn dda ac mae'r adborth yn ardderchog, oherwydd hygyrdded yr arweinwyr effeithiol i rannu ymarfer bresennol a phrofiadau go iawn.</p> <p>Dylunio a darparu modiwlau AU ar gyfer arweinwyr ysgol e.e. ar Gynllunio'r Cwricwlwm ar gyfer Dyfodol Llwyddiannus. Yn yr un modd, ar gyfer Adnoddau Dynol a rheoli perfformiad hefyd.</p> <p>Bwrdd Penaethiaid ERW – rhan o strwythur llywodraethu ERW.</p> <p>DOLEN – gweler uchod.</p> <p>Mae cydweithio ar draws y rhanbarthau ar gyfer ysgolion 3-18 yn hwyluso'r maes twf allweddol yma. Mae ysgolion yn arwain wrth sicrhau fod pob math o ddysgu wedi ei gyd-gysylltu ac yn cael ei hwyluso ar y cyd.</p>

### Trosolwg Ysgol i Ysgol

Her Canol De Cymru		Partneriaeth yw Her Canol De Cymru sy'n cynnwys dros 400 o ysgolion yn cydweithredu i ddatblygu system sy'n hunanwella. Mae model gwella ysgolion Canol De Cymru yn seiliedig ar welliant a yrrir gan ysgolion i ysgolion. Yn y model hwn, bydd adnoddau canolog yn canolbwyntio fwyfwy ar ysgolion bregus tra bydd y rhai eraill yn arwain eu gwelliannau eu hun ac yn cael eu dal i gyfrif am effaith eu gwaith.
Grwpiau Gwella Ysgolion (GGYau)		Mae'r holl ysgolion mewn grwpiau gwella trawsranbarth. Pwrpas y GGYau y gweithio ynghyd i adnabod arfer orau, ei datblygu a'i rhannu ar draws pob ysgolion mewn modd sy'n fuddiol i bob ysgol yn y GGY. Mae pob GGY yn cynnwys ysgolion o Awdurdodau Lleol gwahanol mewn lleoedd gwahanol ar eu taith ddysgu ac sydd â disgyblion o gefndiroedd cymdeithasol ac economaidd gwahanol.
Ysgolion Braenaru		Partneriaethau yw'r ysgolion braenaru, sy'n cael eu brocra rhwng dwy ysgol lle mae ysgol yn cefnogi ysgol arall i wella. Mae effaith gwella ar y ddwy ysgol yn cael ei mesur. Parau mwy dwys o ysgolion ydyn nhw sy'n datblygu maes penodol.
Ymholiad Cymheiriaid		Bydd tîm o dri arweinydd ysgol – dau bennaeth ac un uwch arweinydd – yn ymweld ag ysgol dros 2 ddiwrnod, yn dathlu ymarfer effeithiol ac yn awgrymu 2 neu 3 linell ymholi fel blaenoriaeth sy'n gysylltiedig â gwella ysgolion i helpu symud yr ysgol ymlaen. Mae'r ymholiad yn cael ei gynnal gydag ysbryd o gefnogaeth a gonestrwydd beirniadol.
Hybiau Gwella	Hybiau Dysgu Proffesiynol	Rôl yr hybiau dysgu proffesiynol yw ymgysylltu â cherrig milltir y continiwm dysgu proffesiynol o ran dysgu ac addysgu. Meysydd ffocws: <ul style="list-style-type: none"> <li>Rhaglen addysgeg Addysgu Gychwynnol Athrawon (a ddarperir mewn ysgolion arweiniol dan fathodyn Sefydliad Addysgu Uwch)</li> <li>Rhaglen ymsefydlu ANGau</li> <li>Datblygu/mireinio ymarfer</li> <li>Uwch arweinwyr ac arweinwyr canol y dyfodol</li> <li>Rhaglenni penaethiaid</li> <li>Rhaglenni dysgu ac addysgu craidd</li> <li>Rhaglenni gwella ysgol gyfan craidd</li> <li>Cryfhau cysylltiad ag Arloeswyr Donaldson</li> </ul>
	Hybiau Cwricwlwm	Gweithio mewn partneriaeth i ddatblygu a chyflwyno agweddau ar anghenion y rhanbarth o fewn maes cwricwlwm. Meysydd ffocws: <ul style="list-style-type: none"> <li>Grwpiau ymchwil gweithredu ar feysydd anghenion rhanbarthol</li> <li>Hwyluso grwpiau arweinyddiaeth</li> <li>Cyfranogi mewn grwpiau datblygu cwricwlwm</li> <li>Cefnogaeth i adrannau mewn ysgolion coch ac ambr</li> <li>Cynnal cyfarfodydd rhwydwaith</li> <li>Cryfhau cysylltiadau ag Arloeswyr Donaldson</li> </ul>
	Ymarferwyr Arweiniol	<ul style="list-style-type: none"> <li>Ymarferwyr di-graidd yw ymarferwyr arweiniol sydd â chefnidir profedig yn eu maes cwricwlwm ac yn dymuno cefnogi athrawon eraill yn y rhanbarth</li> <li>Caiff ymarferwyr arweiniol eu comisiynu gan ymgynghorydd strategol y Consortiwm i gefnogi ysgolion eraill trwy wella eu darpariaeth, eu harfer a'u deilliannau yn y pwnc</li> <li>Bydd ymarferwyr arweiniol hefyd yn cynnal cyfarfodydd rhwydwaith yn y rhanbarth er mwyn hwyluso rhwydweithio, rhannu diweddariadau a chyfleoedd i rannu arfer</li> <li>Hwyluso dysgu a arweinir gan ymholiad</li> <li>Cefnogi datblygiad arweiniad</li> <li>Cymryd rhan mewn/ hwyluso grwpiau datblygu cwricwlwm</li> <li>Cefnogi adrannau/ athrawon mewn ysgolion coch ac ambr</li> <li>Cynnal / cymryd rhan mewn cyfarfodydd rhwydwaith</li> <li>Archwilio cysylltiadau ag Arloeswyr Donaldson</li> </ul>

## Trosolwg lefel uchel o gydweithredu ysgol i ysgol

### Rhanbarth: Consortiwm Canolbarth y De

AGWEDD	ENGHREIFFTIAU O FODELAU YSGOL I YSGOL A DDEFNYDDIR
<b>Gwella ysgolion</b>	<p>Ysgolion Braenaru: 42 o ysgolion sy'n ymwneud â chefnogi 46 ysgol ym mhartneriaethau carfan 4 sy'n canolbwyntio ar feysydd datblygu penodol. Mae carfan 5 ar y gweill</p> <p>Ymholiad Cymheiriaid: mae 100 ysgol cymryd rhan mewn ymholiad cymheiriaid</p> <p>Hybiau: fel rhan o'u cytundeb lefel gwasanaeth, mae'r hybiau wedi darparu dros 170 diwrnod o gymorth i ysgolion coch/ambr</p>
<b>Cymorth Cwricwlwm</b>	<p>Hwb: 94 o gyfleoedd datblygiad proffesiynol sy'n cael eu cynnig gan 43 ysgol.</p>
<b>Arweinyddiaeth</b>	<p>Rhaglenni arweinyddiaeth sy'n cael eu cynnig gan ysgolion 'hwb' CCD.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Arweinwyr Canol y dyfodol (cyfrwng Cymraeg cynradd)</li> <li>- Arwain a Rheoli Newid (rhaglen arweinyddiaeth cynnar &amp; chanol, traws-gyfnod)</li> <li>- Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth Ganol (uwchradd)</li> <li>- Darpar Arweinwyr Canol y Dyfodol (uwchradd)</li> <li>- Arweinwyr Canol Presennol (uwchradd)</li> <li>- Rhaglen Arweinwyr Uwch y dyfodol (uwchradd)</li> <li>- Cyrraedd Da ac Ymlaen at Ragorol – uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (uwchradd)</li> <li>- Arweinyddiaeth Ddosbarthedig – Meithrin Gallu – i benaethiaid / Therapi Iaith a Lleferydd. (cynradd)</li> <li>- Darpar Benaethiaid</li> <li>- Arweinwyr y Dyfodol - Cynradd</li> <li>- Arweinwyr y Dyfodol mewn Ysgolion Arbennig</li> </ul> <p>Mae ysgolion arbennig ac Unedau Cyfeirio Disgyblion yn gweithredu fel un grŵp i adnabod meysydd lle mae ymarfer effeithiol yn bodoli yn eu sector; yn paratoui rhaglenni dysgu/hyfforddiant i'w cynnig i bob ysgol (gan gynnwys y brif ffrwd)</p> <p>Hwb cyfrwng Cymraeg uwchradd Gyda'n Gilydd. Mae holl brifathrawon uwchradd cyfrwng Cymraeg y rhanbarth yn cytuno ar anghenion datblygu'r sector (yn seiliedig ar ddata a gwybodaeth arall); yn adnabod ac ariannu ymarferwyr/ ysgolion sydd â'r arfer orau i gynllunio a</p>

	<p>darparu rhaglenni dysgu proffesiynol sydd wedyn yn cael eu cynnig i'r holl ysgolion.</p> <p>Model 'Gyda'n Gilydd' i'w dreialu gydag 11 ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yn 2017/2018.</p> <p>Rhaglen Ymholiad Cymheiriaid CCD (proses ymholi dan arweiniad penaethiaid mewn ysgolion cydweithwyr). Mae 24% o ysgolion CSC (100 ysgol) wedi cynnal ymholiad cymheiriaid. Mae tîm ymholi'r ysgol letyol yn cynnal ymweliad dilynol blwyddyn ar ôl yr ymholiad greiddiol.</p>
<b>Dysgu ac addysgu</b>	<p>Hybiau Dysgu Proffesiynol: Cynigwyd 13 cyfle datblygiad proffesiynol cynradd (rhai mewn partneriaethau), a 12 cyfle uwchradd gan ysgolion CCD. Mae'r rhain yn cefnogi datblygu addysgeg yn ogystal ag arwain dysgu ac addysgu. Mae'r ysgolion yn hwyluso rhwydweithiau o fewn y rôl hwn.</p> <p>Ysgolion Arloesol Dysgu Proffesiynol: Mae 14 o ysgolion arloesol cynradd ac 9 uwchradd. Mae'r rhain yn treialu elfennau sy'n gysylltiedig â Dyfodol Llwyddiannus, yn enwedig y Safonau Proffesiynol ac Ysgolion fel Sefydliadau Dysgu. Maent hefyd yn darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol trwy'r system hybiau i ddatblygu addysgeg. Maent yn hwyluso rhwydweithiau amrywiol o fewn y rôl hon.</p> <p>Ysgolion creadigol arweiniol: Mae 64 ysgol yn cymryd rhan yn y rhaglen Ysgolion Creadigol; mae 43 ysgol ychwanegol wedi derbyn ariannu grant ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf. Mae'r ysgolion hyn wrthi'n archwilio'r posibilrwydd o ddefnyddio prosesau creadigol ac addysgeg, gan gynnwys ymgysylltu ag artistiaid, i ddarparu themâu amlddisgyblaeth.</p>

### **Strategaethau sy'n mynd i'r afael â nifer o'r agweddau uchod:**

**Grwpiau Gwella Ysgolion (SIG):** Mae 322 ysgol gynradd ynghlwm â 32 SIG, ac mae 68 ysgol uwchradd ynghlwm â 6 SIG. Maent yn canolbwyntio ar amrywiaeth o flaenoriaethau lleol a chenedlaethol sy'n cynnwys llythrennedd, rhifedd, lles, addysgeg dyfodol llwyddiannus a'r DCF. Mae'r grwpiau hyn gweithio ar draws y rhanbarth ac yn cynnwys ysgolion o gyd-destunau gwahanol. Yn yr ysgolion uwchradd, mae'r ffocws ar baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd a'r newidiadau a ddaw yn sgil newidiadau i gymwysterau.

## Trosolwg lefel uchel o weithio Ysgol i Ysgol

**Rhanbarth:** Gwasanaeth Cyflawni Addysg ar gyfer De Ddwyrain Cymru

ELFEN	ENGHREIFFTIAU O FODELAU YSGOL I YSGOL A DDEFNYDDIR
<b>Gwella Ysgolion</b>	<p>Penaethiaid Uwchradd a Therapyddion Lleferydd ac Iaith i gyd yn ymwneud â rhwydweithiau datblygu arweinyddiaeth</p> <p>Gweithgarwch Rhwydweithiau Arweinyddiaeth Cynradd ac Adolygiadau gan Gymheiriaid</p> <p>Partneriaethau Mentor Ysgolion wedi eu cysylltu ag angen penodol yr ysgol</p> <p>Mae pob Clwstwr (yn cynnwys Ysgolion Arbennig ac Unedau Cyfeirio Disgyblion) wedi cytuno ar gynlluniau i ddatblygu strategaethau allweddol e.e. llythrennedd, rhifedd, lles, a chyflwyno'r cwricwlwm newydd</p> <p>Penaethiaid Cynradd yn cyflawni rôl y Cynghorwyr Her ar draws y rhanbarth.</p>
<b>Cymorth Cwricwlwm</b>	<p>56 o Brif ysgolion/ymarferwyr y Rhwydwaith yn cefnogi ysgolion eraill i ddatblygu:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Cynradd: Llythrennedd (cyfrwng Cymraeg a Saesneg), Rhifedd, Gwyddoniaeth, STEM, Lles a Thegwch, Cyfnod Sylfaen</li> <li>- Uwchradd: Yr holl bynciau craidd a llawer o'r pynciau di-graidd, Tegwch a Lles, Dyfodol Byd-eang a STEM</li> <li>- Rhaglen gymorth Bagloriaeth Cymru a gyflwynir gan ysgolion</li> <li>- Datblygu cefnogaeth ar gyfer cymwysterau TGAU newydd</li> </ul> <p>Ysgolion Arloesi Cwricwlwm yn cefnogi'r broses o ehangu'r Agenda Dyfodol Llwyddiannus ar draws y rhanbarth.</p>
<b>Arweinyddiaeth</b>	<p>Mentora a hyfforddiant pwrpasol a ddarperir gan arweinwyr ar gyfer arweinwyr (gan gynnwys Cadeiryddion Llywodraethwyr)</p> <p>Ysgolion Dysgu Proffesiynol yn hwyluso, dylunio a darparu'r holl raglenni arweinyddiaeth ar gyfer y rhanbarth bron</p> <p>Rhaglenni cymorth cymheiriaid fel sy'n ofynnol</p>
<b>Addysgu a Dysgu</b>	<p>Mentora a hyfforddiant pwrpasol a ddarperir gan athrawon ar gyfer athrawon</p> <p>Ysgolion Dysgu Proffesiynol yn hwyluso, dylunio a darparu'r holl raglenni addysgu</p> <p>Ysgolion Dysgu Proffesiynol yn hwyluso, dylunio a darparu'r rhaglenni ar gyfer cynorthwywyr addysgu (newydd ei gyflwyno)</p> <p>Cydweithredu ar ddigwyddiadau rhannu arferion gorau</p>

- Mae mwy na 70% o'r Ddarpariaeth Dysgu Proffesiynol ar gyfer y rhanbarth yn cael ei chyflwyno gan ysgolion ar gyfer ysgolion
- Mae'r uchod yn enghreifftiau o weithgarwch ysgol i ysgol. Yn ystod 2016/2017, cynhaliwyd mwy na 1500 o elfennau gweithgarwch rhwng ysgolion.

## Cyflawniad canrannol ysgolion uwchradd prif ffrwd ar gyfer pynciau allweddol y

Yn seiliedig ar ddisgyblion blwyddyn 11 ar gyfer 2015/16, mae'r blynyddoedd blaenorol yn seiliedig ar y disgyblion Dangosydd Pwnc Craidd: A\* i C mewn Cymraeg iaith gyntaf neu Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth

Blwyddyn	Canran y disgyblion sy'n llwyddo i gael A* i C mewn Saesneg		Canran y disgyblion sy'n llwyddo i gael A* i C mewn Cymraeg		Canran y disgyblion sy'n llwyddo i gael A* i C mewn Mathemateg		Canran y di
	Ysgolion		Ysgolion		Ysgolion		llwyddo i
	Ysgolion HYC	heb fod yn HYC	Ysgolion HYC	Ysgolion heb fod yn HYC	Ysgolion HYC	Ysgolion heb fod yn HYC	mewn Gw
2014	56.1	70.7	56.3	74.2	51.3	66.0	79.8
2015	59.2	73.3	55.0	75.6	54.0	68.7	81.4
2016	61.5	74.2	68.2	75.7	59.2	71.6	78.1
Gwelliant o ran pwyntiau canrannol rhwng 2014 a 2016	5.5	3.5	11.9	1.5	7.9	5.6	-1.7

Ffyr

## Cyflawniad canrannol disgyblion FSM mewn ysgolion uwchradd prif ffrwd ar gy

Blwyddyn	Canran y disgyblion sy'n llwyddo i gael A* i C mewn Saesneg		Canran y disgyblion sy'n llwyddo i gael A* i C mewn Cymraeg		Canran y disgyblion sy'n llwyddo i gael A* i C mewn Mathemateg		Canran y di
	Ysgolion		Ysgolion		SCC		llwyddo i
	Ysgolion HYC	heb fod yn HYC	Ysgolion HYC (a)	Ysgolion heb fod yn HYC	schools	Ysgolion heb fod yn HYC	SCC schools
2014	34.5	43.7	40.0	48.8	28.9	38.5	67.0
2015	38.2	50.0	40.0	51.8	32.9	43.6	70.1
2016	41.2	51.3	40.0	51.0	40.1	46.7	68.1
Gwelliant o ran pwyntiau canrannol rhwng 2014 a 2016	6.7	7.6	0.0	2.2	11.2	8.2	1.1

Ffyr

(a) Cymerwch ofal wrth ddehongli'r ffigurau hyn am eu bod yn seiliedig ar gohortau bach (rhwng 5 a 10



**yn unol â statws Her Ysgolion Cymru (HYC).**

hynny sy'n 15 oed ar ddechrau'r flwyddyn academiaidd

sgyblion sy'n gael A* i C yddoniaeth	Canran y disgylion sy'n llwyddo i gael Dangosydd Pwnc Craidd	
	Ysgolion heb fod yn HYC	Ysgolion heb fod yn HYC
	Ysgolion heb fod yn HYC	Ysgolion heb fod yn HYC
	86.3	41.7
	88.3	43.4
	87.0	46.9
	0.7	5.2

rhonell: cronfa ddata arholiadau Cymru

**ifer pynciau allweddol yn unol â statws Her Ysgolion Cymru (HYC).**

sgyblion sy'n gael A* i C yddoniaeth	Canran y disgylion sy'n llwyddo i gael Dangosydd Pwnc Craidd	
	Ysgolion heb fod yn HYC	Ysgolion heb fod yn HYC
	SCC schools	HYC
	76.1	21.2
	79.7	23.3
	76.0	26.8
	-0.1	5.7

rhonell: cronfa ddata arholiadau Cymru  
myfyriwr)

**Prif bwyntiau ymweliad astudio swyddogion Llywodraeth Cymru â'r  
Ffindir 18-20 Ionawr 2017**

Roedd y system addysg wedi'i chynllunio fel a ganlyn:

**0-5 Gofal ac Addysg Plant yn y Blynyddoedd Cynnar** – darpariaeth mewn amrywiaeth o leoliadau gofal plant cyhoeddus a phreifat gyda phwyslais ar ddysgu drwy chwarae. Mae'r cwricwlwm yn eithaf rhydd ond ceir pwyslais ar ddatblygu'r plant fel eu bod yn 'barod i ddysgu'. Mae hyn yn cynnwys datblygu eu sgiliau canolbwyntio, gwaith tîm, gwydnwch a hyder, ynghyd ag adnabod rhifau a llythrennau syml ac ati.

**6 Addysg cyn-gynradd** – paratoi'r plant i ddysgu yn fwy trylwyr ond heb unrhyw wersi darllen/ysgrifennu na mathemateg ffurfiol. Fodd bynnag, mae'r rhieni a'r ysgolion yn ymwybodol bod disgwyl i'r plant allu darllen, ysgrifennu a chyfrif i ryw raddau cyn dechrau'r cyfnod addysg sylfaenol.

**7-16 Addysg Sylfaenol** – yn cael ei ddarparu mewn lleoliadau cynradd a lleoliadau uwchradd is. Mae addysg ffurfiol yn dechrau pan fo plentyn yn 7 oed. Mae dysgu gwahaniaethol yn gryf ac fe geir pwyslais arbennig ar beidio â gadael unrhyw blentyn ar ôl. Mae'r gwasanaethau cymdeithasol, y gwasanaethau iechyd a'r ysgolion yn cydweithio'n agos ar lefel yr ysgol ac yn cynnwys y rhieni pan fo plentyn yn agored i risg. Gwneir defnydd hefyd o'r Prifysgolion lleol, sy'n cynnig cyrsiau sylfaenol mewn pynciau penodol ar gyfer rhieni plant sy'n tangyflawni er mwyn iddynt feithrin dealltwriaeth o'r pynciau a gallu helpu eu plant. Nid oes unrhyw brofion swyddogol yn cael eu cynnal nes bod y plant yn 15. Bryd hynny, maent yn sefyll arholiad i weld pa lwybr y dylent ei ddilyn ar gyfer rhan uwch eu haddysg uwchradd. Mae'r rhan fwyaf o blant yn cael eu derbyn i lefel uwch yr ysgol uwchradd (ôl-16). Yn 16 oed ac yn ddibynnol ar eu perfformiad academaidd neu eu gallu, caiff y plant ddewis gwneud blwyddyn arall o addysg sylfaenol. Unwaith eto, nid ydynt yn gadael yr ysgol heb gyrraedd y lefelau gallu gofynnol.

**Ôl 16+** Ar ôl sefyll yr arholiad, mae'r plant yn symud i ran uwch yr ysgolion uwchradd (academaidd) neu'r hyn sy'n ymdebygu i golegau addysg bellach. Yn y colegau technegol hynny, byddant yn astudio tuag at gymwysterau galwedigaethol ac yn cael profiad gwaith (yn debyg i'n llwybr prentisiaeth ni). Mae plant ar y ddau lwybr yna'n cael dewis a ydynt am fynd ymlaen i'r Brifysgol (oll am ddim), naill ai i astudio mewn prifysgol academaidd neu brifysgol gwyddorau cymhwysol. Mae'r naill brifysgol a'r llall yn meddu ar y pŵer i ddyfarnu gradd ond dim ond y prifysgolion academaidd all gynnal hyfforddiant doethurol.

### **Y prif agweddau ar System Addysg y Ffindir**

Mae perfformiad myfyrwyr y Ffindir yn asesiadau rhyngwladol PISA wedi bod yn uchel o gymharu â'r gwledydd eraill dros y tair blynedd ddiwethaf. O ganlyniad, mae'r wlad wedi cael cryn sylw. Y prif nodweddion y mae Asiantaeth Genedlaethol dros Addysg y Ffindir wedi'u nodi fel y rhai sydd wedi cyfrannu at eu llwyddiant yw:

- Pwyslais cryf ar gyfartaledd - o ran mynediad ac ansawdd
- Rhaglen gadarn ar gyfer y blynyddoedd cynnar
- Mae dysgu'n cael ei weld fel proffesiwn deniadol (dim ond 10% o ymgeiswyr sy'n cael eu derbyn)
- Mae'r holl athrawon wedi'u hyfforddi i safon uchel (gradd meistr ac ymrwymiad i gynnal ymchwil parhaus â'r sector addysg uwch), sy'n golygu bod angen llai o atebolrwydd ffurfiol.
- Pwyslais ar ddysgu yn hytrach na phrofi – nid yw ysgolion yn cael eu gosod mewn trefn yn ôl llwyddiannau ar lefel genedlaethol.
- Mae'r amser dysgu yn isel o gymharu â gwledydd eraill gan roi amser i athrawon baratoi a chynllunio
- Dim gorfodaeth i ddilyn Fframwaith y Cwricwlwm yn ddeddfol a hyblygrwydd yn lleol
- Grwpio dosbarthiadau mewn ffordd hyblyg. Ni cheir llawer o achosion o drefnu dosbarthiadau yn ôl eu gallu
- Strwythur rheoli syml, gydag ychydig iawn o arweinwyr haen ganol mewn ysgolion
- Nifer cymharol isel o gynorthwyyr addysgu
- Mae pob plentyn yn cael cinio ysgol
- Mae maint y dosbarthiadau'n amrywio rhwng 20 a 24 disgybl mewn ysgolion cynradd ac uwchradd
- Mae swm y gwariant blynyddol ar bob myfyriwr yn is na'r swm yn y DU ym mhob cyfnod
- Rhoddir pwyslais ar les drwy gyfrwng rhaglenni cymorth ym mhob cyfnod

Mae gan athrawon y Ffindir ymrwymiad cadarn i gyfartaledd ac anogaeth, rhoi cymorth unigol i fyfyrwyr, cryfhau sgiliau meddwl myfyrwyr, a datblygu eu hyder, goddefgarwch a'u gwydnwch. Yn ôl arolwg rhyngwladol y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (TALIS 2013), mae 90% yn fodlon yn eu swyddi a byddai 70% yn dewis dysgu eto. Er bod cyflogau athrawon cyn-gynradd yn is na'u cyfoedion yn y DU, mae cyflogau athrawon cynradd ac uwchradd yn uwch yn y Ffindir.

### **Defnyddio'r casgliadau yn ein gwaith o ddiwygio addysg yng Nghymru**

- Angen cynnal lefel o hyblygrwydd yn ein cwricwlwm newydd
- Pwysigrwydd arloesi/ymchwil a chydweithio, a rôl hanfodol addysg uwch.
- Mae peidio ag asesu er lles atebolrwydd a lefelau athrawon ac ysgolion yn cael effaith sylweddol ar agwedd a lles yr athrawon, ond mae'n rhaid bodloni gofynion academaidd uwch er mwyn galluogi hyn.

- Mae cryfder ein Cyfnod Sylfaen yn cyd-fynd â phrofiad y blynyddoedd cynnar.
- Mae angen inni adolygu gwaith ac arferion cynorthwywyr addysgu.
- Mae angen inni gryfhau ein pwyslais ar les myfyrwyr.

Vaughan Gething AC/AM

Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon  
Cabinet Secretary for Health, Well-being and Sport



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Ein cyf: MA - P/VG/2155/17

Lynne Neagle AC

Cadeirydd

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

1 Awst 2017

Annwyl Lynne

Diolch ichi am y gwahoddiad i gwrdd â'r Pwyllgor ar 12 Gorffennaf fel rhan o'ch ymchwiliad i iechyd meddwl amenedigol. Roedd yna rai materion y cytunais i ysgrifennu atoch ynglŷn â hwy ar ôl y sesiwn.

### Casglu Data

Mae Grŵp Llywio Iechyd Meddwl Amenedigol Cymru Gyfan (y Grŵp Llywio) wedi sefydlu is-grŵp Llwybrau a Chanlyniadau, sy'n cefnogi casglu data cyson. Fel y gwyddoch, mae rhai ffigurau ar gyfer nifer yr atgyfeiriadau eisoes yn cael eu casglu gan rai byrddau iechyd, ond bydd hyn yn cael ei fireinio. Rwy'n disgwyl i bob tîm iechyd meddwl amenedigol cymunedol gasglu'r data y cytunwyd arnynt yn y flwyddyn newydd, gyda data adrodd dibynadwy ar gael ym mis Mawrth 2018 yn unol â chynllun gwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru.

### Mynediad i Therapïau Seicolegol

Mae therapïau seicolegol ar gael i fenywod â salwch meddwl amenedigol mewn gofal iechyd meddwl sylfaenol ac eilaidd. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu mesurau safonol cenedlaethol ar gyfer mynediad i therapïau seicolegol mwy arbenigol drwy Fwrdd Safonau Gwybodaeth Cymru hefyd. Bydd disgwyl i fyrddau iechyd adrodd ar eu hamseroedd aros o fis Rhagfyr 2017 ymlaen. Rydym bellach yn ymchwilio i'r gallu i ddefnyddio'r ffynhonnell ddata hon i fesur mynediad i fenywod â phroblemau iechyd meddwl amenedigol gyda'r Grŵp Llywio a'r Gymuned Ymarfer.

### Goruchwyllo seicolegwyr

Trafodwyd hefyd y broses o oruchwyllo gweithwyr proffesiynol iechyd meddwl amenedigol arbenigol. Gan fod timau iechyd meddwl amenedigol cymunedol yn rhan o fyrddau iechyd, bydd hyfforddiant tymor hwy ac anghenion goruchwyllo'r timau yn cael eu cefnogi gan Grŵp Llywio Iechyd Meddwl Amenedigol Cymru Gyfan. Mae'r Grŵp Llywio yn cynnwys is-grŵp sydd â'r gorchwyl o fynd i'r afael ag anghenion hyfforddi. Mae hefyd yn cynnwys cynrychiolaeth o dîm cymunedol pob bwrdd iechyd, gyda seicolegwyr ymhlith ei aelodau. O

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru)  
[Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales](mailto:Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

ran yr angen am oruchwyliaeth o'r tu allan i Gymru, rwyf ar ddeall bod hyn yn cyfeirio at oruchwyliaeth hyfforddi, yn hytrach na goruchwyliaeth glinigol.

## **Adolygiad Haen 4 Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (PGIAC)**

Ar 25 o Orffennaf, cyflwynwyd papur i Gyd-bwyllgor PGIAC ynglŷn ag Iechyd Meddwl Amenedigol Arbenigol Haen 4 yng Nghymru. Roedd y papur yn cynnwys rhestr fer gyda'r tri opsiwn canlynol i'r Cyd-bwyllgor i'w hystyried:

- Opsiwn 1: Gwasanaethau Iechyd Meddwl Amenedigol Haen 4 yn cael eu darparu trwy'r broses Ceisiadau Cyllido Cleifion Unigol gyda chontract sicredig
- Opsiwn 2: Sefydlu un Uned Mam a Babi ranbarthol i Gymru
- Opsiwn 3: Sefydlu Uned Mam a Babi ranbarthol yn Ne Cymru a chontractio gwasanaethau ar gyfer Gogledd Cymru o Loegr

Gweler y papur cyfan isod:

<http://www.whssc.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1119/2017.07.25%20WHSSC%20Joint%20Committee%20papers%20%28Web%29.pdf>

Rwyf ar ddeall bod y Cyd-bwyllgor wedi gofyn am ragor o wybodaeth cyn dod i benderfyniad. Mae fy swyddogion wrthi'n trafod gyda PGIAC i sicrhau bod y Cyd-bwyllgor mewn sefyllfa i wneud penderfyniad cyn gynted ag y bo modd.

## **Ymchwil ar Iselder Ôl-enedigol**

Gofynnodd y Pwyllgor am unrhyw wybodaeth sydd gennym ar ymchwil sydd ar gael ar y cysylltiadau rhwng methu â bwydo ar y fron ac iselder ôl-enedigol. Mae *Breastfeeding and Postpartum Depression: An Overview and Methodological Recommendations for Future Research*, gan Pope a Mazmanian (2016), yn cynnwys safbwyntiau sy'n groes i'w gilydd. Mae rhywfaint o waith ymchwil sy'n dangos tystiolaeth o'r ffactorau amddiffynnol sy'n gysylltiedig â bwydo ar y fron ac eraill sy'n mynegi cynnydd mewn cyfraddau iselder os ceir canfyddiad o 'fethiant'. Nodir dau o'r papurau hyn isod:

<http://lib.education.vnu.edu.vn/bitstream/DHGD/6782/1/Clinical137.pdf>

<https://www.ncbi.nlm.nih.gov/pmc/articles/PMC4842365/>

Mae tudalennau Menter Cyfeillgar i Fabanod UNICEF hefyd yn cynnig ychydig o waith ymchwil diweddar ar gysylltiadau rhwng iechyd meddwl a chanlyniadau bwydo babanod:

<https://www.unicef.org.uk/babyfriendly/news-and-research/baby-friendly-research/maternal-health-research/y-fam-iechyd-ymchwil-iechyd-meddwl/>

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro tystiolaeth yn y maes hwn ond mae'n cydnabod ac yn blaenoriaethu manteision cyffredinol bwyd ar y fron i famau a babanod. Fel rhan o'r byrddau perfformiad blynyddol, mae Llywodraeth Cymru yn cael adborth gan fyrddau iechyd ar gyfraddau ac arferion bwydo ar y fron sydd ar waith i gefnogi mamau a theuluoedd. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru yn cydweithio i fynd i'r afael â thwf sefydlog bwydo ar y fron yng Nghymru ac yn sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i ymchwilio i arferion ar draws Cymru ac edrych ar gyfeiriad strategol. Mae'r ddau wedi ymrwymo i wella cyfraddau bwydo ar y fron a chymorth yng Nghymru a cheisio normaleiddio a hyrwyddo bwydo ar y fron drwy ei holl feysydd gwaith.

Yn unol â Galwad i Weithredu UNICEF UK, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn darparu arweiniad strategol uwch i'r gwaith fel ffordd o gael mwy o effaith ac effaith fwy cynaliadwy drwy ddull o normaleiddio bwydo ar y fron drwy systemau. Mae hyn yn golygu symud i ffwrdd o ymyriadau sy'n canolbwyntio ar fwydo ar y fron fel cyfrifoldeb y fenyw i ddull mwy cymdeithasol er mwyn sicrhau gwelliant ar lefel y boblogaeth. Y nod yw peidio â rhoi pwysau ar fenywod i fwydo ar y fron, ond yn hytrach dileu rhwystrau ymarferol, emosiynol a diwylliannol sydd ar hyn o bryd yn atal menywod sydd am fwydo ar y fron rhag gwneud hynny.

Mae gan bob bwrdd iechyd yng Nghymru Gydlynwyr Bwydo Babanod penodedig ac maent yn darparu cefnogaeth leol i famau a'u teuluoedd. Mae dros 100 o grwpiau bwydo ar y fron ledled Cymru sy'n cynnig cymorth yn lleol. Mae'r grwpiau cymorth yn darparu ffynhonnell ardderchog o anogaeth, cefnogaeth a gwybodaeth i famau neu fenywod beichiog sy'n bwydo ar y fron sy'n awyddus i gael mwy o wybodaeth. Mae gwefan Her Iechyd Cymru yn darparu gwybodaeth am Grwpiau Cymorth Bwydo ar y Fron ledled Cymru.

Yn unol â Cynllun Cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl 2016-19, mae'n ofynnol i fyrdau iechyd ac Iechyd Cyhoeddus Cymru sicrhau bod menywod yn cael cynnig gwybodaeth a chymorth da. Mae rhaglenni Llywodraeth Cymru megis Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf a Plentyn Iach Cymru, yn ogystal ag adnoddau megis Naw Mis a Mwy, yn helpu i gefnogi iechyd a lles cadarnhaol a hybu ymlyniad iach.

Diolch ichi unwaith eto am fy ngwahodd i gwrdd â'r Pwyllgor ac edrychaf ymlaen at ddarllen canfyddiadau'r eich ymchwiliad maes o law.

Yn gywir



**Vaughan Gething AC/AM**

Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon  
Cabinet Secretary for Health, Well-being and Sport



## Eitem 5.8



### *Crwner Gogledd Cymru (Dwyrain a Chanol)* *North Wales (East and Central) Coroner*

FAO Lynne Neagle AM  
Chair of Committee into Perinatal Mental Health

18 August 2017

Dear Ms Neagle,

Thank you for your letter of the 7<sup>th</sup> of August.

I am very pleased to note the inquiry by the National Assembly regarding perinatal mental as you have of course already been made aware of the inquest which I conducted in relation to the death of Mr Stephen Priestley's daughter Shanice.

Whilst it would be inappropriate for me to make comment upon matters which may stray into the political arena I can confirm that in the course of my investigation it became clear that there were considerable shortcomings in the provision of support to young women such as Shanice at an incredibly difficult time in their lives. I raised the concerns of both myself and her family with the Health Board in relation to the action which was being taken by them to address the problems and they provided me with certain reassurances around recruitment and the formation of a specialist panel to seek to assist with these problems.

Once the inquest had been concluded they continued (at my request) for a short period to update me on a monthly basis in relation to this matter and as a result it was not necessary for me to issue a regulation 28 report for the prevention of future deaths. In general terms however my conclusion at the time was that more work, resources and personnel would be required if a robust service was to be established and maintained and I welcome the committee's interest in and hopefully their support for such a service.

It must always be remembered that in cases such as Shanice's there was the loss of not one, but two lives and I firmly believe that had help and support been available, then her death and that of her unborn child may have been avoidable.

Please do not hesitate to contact me if I may be of any further assistance.

Yours sincerely,

  
JOHN GITTINS

HM Senior Coroner for North Wales (East & Central)

John A. Gittins, Prif Grwner E.M., Swyddfa'r Crwner, Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay,  
Rhuthin, LL15 1YN Ffôn 01824 708047 Ffacs 01824 708048 DX 21839

John A. Gittins, H.M. Senior Coroner, H.M. Coroner's Office, County Hall, Wynnstay Road,  
Ruthin, LL15 1YN Tel 01824 708047 Fax 01824 708048 DX 21839



24 Gorffennaf 2017

Annwyl Brif Weithredwr,

### Ymchwiliad i Iechyd Meddwl Amenedigol

Fel y gwyddoch, mae Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Cynulliad Cenedlaethol yn cynnal ymchwiliad i Wasanaethau Iechyd Meddwl Amenedigol.

Fel rhan o'r ymchwiliad, mae'r Pwyllgor wedi bod yn clywed tystiolaeth am fynediad at therapïau seicolegol, ac amseroedd aros ar eu cyfer. Mae'r Pwyllgor yn awyddus i glywed pa ddarpariaethau sydd ar gael ym mhob Bwrdd Iechyd. I lywio casgliadau ac argymhellion y Pwyllgor, byddai'n ddefnyddiol iawn pe gallech ddarparu'r wybodaeth ganlynol:

- y broses i fenyw y mae angen cymorth therapi seicolegol arni gael mynediad ato;
- amseroedd am fynediad at wasanaethau therapi seicolegol;
- nifer y sesiynau seicolegol clinigol amenedigol unigol a sesiynau i grwpiau a ddarperir gan eich Bwrdd Iechyd bob wythnos;
- dadansoddiad o'r gyfran o amser a dreulir gan bob un o'ch seicolegwyr ar ddarparu sesiynau therapi seicolegol:


(A) 1-i-1, a

(B) sesiynau grŵp,

ar gyfer menywod y mae angen cefnogaeth amenedigol arnynt [rhowch ddata wedi'i ddadgyfuno ar gyfer (a) a (b)].

Byddai'r Pwyllgor yn croesawu cael y wybodaeth hon yn fawr erbyn 24 Awst 2017.

Yn gywir



**Lynne Neagle AC**  
Cadeirydd



Alun Davies AC/AM  
Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes  
Minister for Lifelong Learning and Welsh Language



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-P/ARD/2614/17

Lynne Neagle AC  
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd

1 Awst 2017

Annwyl Lynne

Diolch am eich llythyr dyddiedig 10 Gorffennaf a oedd yn sôn am ddiddordeb parhaus y Pwyllgor mewn gwaith ieuenctid yng Nghymru.

Rwy'n cydnabod pwysigrwydd a gwerth gwaith ieuenctid o safon. Felly, rwy'n falch o glywed am fwriad y Pwyllgor i barhau i edrych ar waith ieuenctid ledled Cymru a monitro gwaith Llywodraeth Cymru yn fanwl yn y maes hwn. Rwyf ar ddeall eich bod yn ceisio trefnu sesiwn graffu ffurfiol yn y Flwyddyn Newydd. Bydd hynny'n gyfle imi roi'r newyddion diweddaraf ichi ar y gwaith sy'n cael ei wneud.

Mae'ch safbwyntiau chi a rhai'r Pwyllgor yn hanfodol wrth inni fwrw ati i ddatblygu cyfeiriad statudol ac arweiniad, sydd wedi eu llywio gan randdeiliad, ar gyfer Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid yng Nghymru. O gofio hynny, rwy'n croesawu'r cyfle i gael cyfarfod yn yr hydref er mwyn trafod y materion sydd wedi dod i'r amlwg wrth ichi drafod â rhanddeiliaid. At hynny, rwyf wedi gofyn i ysgrifennydd y dyddiadur gysylltu â chi i drefnu dyddiad.

Yn gywir

**Alun Davies AC/AM**  
Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes  
Minister for Lifelong Learning and Welsh Language

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Alun.Davies@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Alun.Davies@llyw.cymru)  
[Correspondence.Alun.Davies@gov.wales](mailto:Correspondence.Alun.Davies@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-P/KS/2482/17

Lynne Neagle AC

Cadeirydd - Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

28 Gorffennaf 2017

Annwyl

*Lynne*

Diolch am eich llythyr ar 5 Gorffennaf 2017 ynghylch diddordeb y Pwyllgor yn natblygiad teithiau dysgwyr yng Nghymru ac a yw awdurdodau lleol yn cydymffurfio â deddfwriaeth a chanllawiau teithiau dysgwyr.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod dysgwyr yn ddiogel ar eu ffordd i'r ysgol yn ogystal â hyrwyddo'u lles trwy fyw bywydau egniol ac iach.

Cafodd y Mesur Teithio gan Ddysgwyr ei wneud yn 2008 ac ers hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud rhagor o ddeddfwriaeth sy'n ategu'r Mesur, yn arbennig Deddf Teithio Llesol 2013 a Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013. Yn 2014, datblygodd Llywodraeth Cymru ganllawiau newydd ar gyfer asesu'r risg ar lwybrau cerdded i ysgolion gan ymestyn y meini prawf ar gyfer cloriannu a yw llwybrau cerdded i'r ysgol yn ddiogel. Rydym wedi parhau i fonitro effeithlonrwydd y canllawiau asesu risg ac rydym wrthi'n adolygu'r Cod Ymddygiad wrth Deithio. Cynhaliwyd ymgynghoriad llawn fel rhan o'r adolygiad er mwyn holi barn dysgwyr.

Mae'r canllawiau yn destun monitro parhaus. Lle gwelir bod angen eu newid, mae'r canllawiau'n cael eu diweddarau a'u hailgyhoeddi. Fis Ionawr 2016 oedd y tro diwethaf i hyn ddigwydd, i wneud mân welliannau. Bydd fy swyddogion yn adolygu'r canllawiau eto cyn hir yng ngoleuni'r ddeddfwriaeth ar Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r canllawiau cysylltiedig er mwyn sicrhau eu bod yn gyson â'i gilydd.

Mae'r Cod Ymddygiad wrth Deithio, sy'n fesur statudol o dan y Mesur Teithio gan Ddysgwyr, yn anelu at hyrwyddo ymddygiad da ar y daith rhwng yr ysgol a'r cartref er budd diogelwch a lles disgyblion. Wrth adolygu'r canllawiau teithiau dysgwyr, daeth yn amlwg nad oedd dysgwyr yn gwybod am y Cod. O ganlyniad, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn paratoi fersiwn newydd i ddysgu disgyblion am yr ymddygiad a ddisgwylir ganddynt, y drefn riportio a'r cosbau am dorri'r Cod. Mae dysgwyr wedi cymryd rhan lawn yn yr adolygiad o'r cod ymddygiad.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400  
[Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru)  
[Correspondence.Ken.Skates@gov.wales](mailto:Correspondence.Ken.Skates@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 45

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.


Rwyf bellach wedi lansio Cod Ymddygiad wrth Deithio i Gymru Gyfan, fydd yn cynnwys y safonau ymddygiad y disgwylir i ddysgwyr gadw atynt. I gyd-fynd â'r Cod, cyhoeddir canllaw statudol ar ei gyfer sy'n cynnwys fframwaith o bethau y gellid eu gwneud i wneud y Cod Ymddygiad yn fwy effeithiol. Rwyf wedi cyhoeddi canllaw i rieni ar y Cod Ymddygiad wrth Deithio i'w helpu i gefnogi teithiau diogel a chysurus i ddysgwyr.

Mae'r prosiectau 'Teithiau Llesol' a 'Cherdded i'r Ysgol yng Nghymru' hefyd yn helpu ysgolion i adolygu a gwella'r opsiynau ar gyfer teithio i'r ysgol. Mae Pecyn wedi'i baratoi er mwyn i ysgolion, awdurdodau lleol a grwpiau cymunedol allu cynnal adolygiadau o'r llwybrau cerdded yn eu hardaloedd, gan gynnig ffordd gynaliadwy o asesu a chlustnodi ffyrdd o wella'r seilwaith ar gyfer teithio llesol yng Nghymru. Bydd hyn yn rhoi mwy o gyfleoedd i ddysgwyr deithio'n egnïol i ac o'r ysgol, a chael y manteision o ran yr iechyd a lles a ddaw o weithgarwch corfforol.

O ran cydymffurfio, yn dilyn llythyr y Gweinidog blaenorol at Awdurdodau Lleol i'w hatgoffa am eu dyletswyddau o dan Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru), rwy'n fodlon bod yr holl Awdurdodau Lleol yn cydymffurfio â'u dyletswyddau. Cynhaliodd fy swyddogion arolwg ym mis Mehefin 2016 i holi awdurdodau lleol sut yr oeddynt yn asesu risg y llwybrau cerdded i'r ysgol. Rwyf am gynnal arolwg arall dros haf 2017 i fonitro sut mae awdurdodau lleol yn ystyried yr elfen cerdded i'r ysgol o deithiau dysgwyr.

Pan welaf arwydd nad yw awdurdodau lleol yn cydymffurfio, er enghraifft mewn llythyr gan riant, byddaf yn ysgrifennu at yr awdurdod lleol dan sylw i'w atgoffa am ei ddyletswyddau a'i ymrwymadau ac yn gofyn am sicrwydd ganddo ei fod wedi cadw at yr holl ganllawiau a deddfwriaeth. Mae'r ymatebion rwyf wedi'u cael gan awdurdodau lleol yn fy argyhoeddi bod eu sefyllfa derfynol yn cydymffurfio â'u hymrwymadau a'u dyletswyddau.

Mae sawl opsiwn yn agored imi pe gwelid bod awdurdod lleol yn anghydymffurfio, gan gynnwys y Pŵer Cyfarwyddo o dan adran 15 y Mesur Teithio gan Ddysgwyr. Rwyf wedi ystyried rhoi Cyfarwyddyd mewn ambell achos, ond mae'r broblem wedi'i datrys bob tro trwy ohebiaeth a/neu drefniadau'r awdurdod lleol ei hun.



**Ken Skates AC/AM**

Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith  
Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure

Vaughan Gething AC/AM  
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon  
Cabinet Secretary for Health, Well-being and Sport



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-(P)/VG/1381/17

Lynne Neagle AC  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF9 1NA

9 Awst 2017

Annwyl Lynne,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 12 Gorffennaf ynghylch y Fframwaith Diwygiedig ar gyfer Gwasanaeth Nyrsio mewn Ysgolion 2017, a'r eglurhad am berthynas nyrsys ysgolion gyda disgyblion sydd â chyflyrau iechyd cronig neu hirdymor, gan gynnwys y canllawiau presennol ar anghenion gofal iechyd.

Mae'r fframwaith wedi'i lunio i gynnwys pob disgybl sydd mewn addysg prif ffrwd. Caiff hyn ei ddatblygu ymhellach yn ddiweddarach yn y flwyddyn wrth i Fframwaith Gwasanaeth Nyrsio mewn Ysgolion gael ei lansio ar gyfer Ysgolion Arbennig.

Mae'r fframwaith yn adlewyrchu strwythur Rhaglen Plant Iach Cymru ac yn cynnwys darpariaeth iechyd Gyffredinol, Ychwanegol a Dwys. Cafodd hyn ei wneud i sicrhau bod modd trosglwyddo'n ddi-dor rhwng yr ymwelydd iechyd a'r nyrs ysgol, gan gynnwys unrhyw faterion cymhleth ac anghenion gofal iechyd. Mae'r fframwaith yn nodi:

**Dwys – ymyriadau eraill, ar sail asesu parhaus a dadansoddi anghenion mwy.** Bydd y nyrs ysgol, wrth ymwneud ag anghenion iechyd plentyn neu berson ifanc, yn gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill a chyfrannu'n briodol i gyflwyno'r cynllun y cytunwyd arno.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400  
[Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru)  
[Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales](mailto:Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Felly, bydd y ddarpariaeth gwasanaeth dwys yn galluogi'r nyrs ysgol i fod yn hwylusydd rhwng gwasanaethau addysg, iechyd a gwasanaethau arbenigol, er mwyn sicrhau bod cyn lleied â phosibl yn amharu ar brofiad y dysgwr. Wrth wneud hynny, byddem yn disgwyl i sylw gael ei roi i'r canllawiau 'Cefnogi Dysgwyr ag Anghenion Gofal Iechyd'. Mae'r canllawiau'n pwysleisio'r angen am gydweithrediad rhwng gweithwyr proffesiynol yn y maes addysg a'r maes iechyd, gan osod y dysgwr wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink that reads "Vaughan Gething". The signature is fluid and cursive, with the first name "Vaughan" and the surname "Gething" clearly distinguishable.

**Vaughan Gething AC/AM**

Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon  
Cabinet Secretary for Health, Well-being and Sport

**Elin Jones AC**

Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes,  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

21 Gorffennaf 2017


Annwyl Elin,

### **Rhaglennu deddfwriaeth sydd ar y gweill**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 12 Gorffennaf. Trafododd y Pwyllgor y mater yn ei gyfarfod ddoe. Mae'n fodlon i'r Bil sydd ar ddod ar Brosesu Ceisiadau Cynnig Gofal Plant gael ei gyfeirio at y Pwyllgor unwaith y bydd wedi'i gyflwyno. Ar hyn o bryd, nid yw Aelodau yn rhagweld unrhyw broblemau o ran gallu'r Pwyllgor i ystyried y Bil.

Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar iawn i chi a'r Pwyllgor Busnes am ymgynghori ar y rhaglen ddeddfwriaethol yn gynnar fel hyn er mwyn ein helpu gyda'n blaenraglen waith.

Yn gywir,



**Lynne Neagle AC**  
Cadeirydd



## Item 5.14

**Elin Jones AC**  
Y Llywydd  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru


26 Gorffennaf 2017

Annwyl Lywydd,

### Gweithredu Deddf Cymru 2017

Diolch am eich llythyr dyddiedig 11 Gorffennaf 2017. Trafododd y Pwyllgor eich llythyr yn ei gyfarfod ar 20 Gorffennaf 2017 a chytunodd – o ran y materion yng nghylch gwaith y Pwyllgor – nad oedd ganddo wrthwynebiadau i gynnig yr Ysgrifennydd Gwladol ar y prif ddiwrnod penodedig.

Yn gywir,



**Lynne Neagle AC**  
Cadeirydd







**Elin Jones AC, Llywydd**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**Elin Jones AM, Presiding Officer**

National Assembly for Wales

Cadeiryddion y Pwyllgorau  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1NA

18 Awst 2017

Annwyl Gadeirydd

### **Deddf Cymru 2017: Prif Ddiwrnod Penodedig**

Diolch i chi am drafod ymgynghoriad Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar yr uchod yn eich Pwyllgor.

Gweler yn atodedig fy ymateb i Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Yn sgil y sylwadau a ddaeth gan y Pwyllgor Cyllid a thrafodaethau gyda swyddogion Llywodraeth Cymru, rwyf wedi awgrymu newid y dyddiad y bydd y model cadw pwerau yn dod i rym o 6 Ebrill 2018 i 1 Ebrill 2018, i gyd-fynd â'r dyddiad y bydd y trethi datganoledig newydd yn dod yn weithredol. Bydd Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn nodi'r Prif Ddiwrnod Penodedig mewn Rheoliadau.

Byddaf yn eich rhoi gwybod i chi am unrhyw ohebiaeth bellach gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar y mater hwn.

Yn gywir

Elin Jones AC  
Llywydd

Amg

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA

Llywydd@cynulliad.cymru

www.cynulliad.cymru

0300 200 7403

**National Assembly for Wales**

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA

Llywydd@assembly.wales

www.assembly.wales

0300 200 7403

**Tudalen y pecyn 51**



**Elin Jones AC, Llywydd**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**Elin Jones AM, Presiding Officer**

National Assembly for Wales

Y Gwir Anrhydeddus Alun Cairns AS  
Ysgrifennydd Gwladol Cymru  
1 Caspian Point  
Ffordd Caspian  
Bae Caerdydd  
CF10 4DQ

Eich cyf: 250SUB 17  
Ein cyf: PO210/EJ/HG

18 Awst 2017

Annwyl Alun

Diolch am eich llythyr dyddiedig 10 Gorffennaf yn cynnig 6 Ebrill 2018 fel y Prif Ddiwrnod Penodedig lle bydd y model cadw pwerau i Gymru yn dod i rym.

Rwyf wedi ystyried y cynigion rydych yn eu cyflwyno ac wedi ymgynghori â phwyllgorau'r Cynulliad. Ar y sail honno, rwy'n cytuno â chi y dylai'r trefniadau newydd ddod i rym ym mis Ebrill 2018 ar yr un diwrnod y bydd y trethi datganoledig newydd yn dod i rym - y Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi. Rwyf ar ddeall y bydd hyn yn digwydd ar 1 Ebrill 2018. Felly, byddwn i'n awgrymu y dylai'r Prif Ddiwrnod Penodedig fod ar 1 Ebrill 2018. Byddai hyn yn golygu bod y model cadw pwerau yn dod i rym ar Sul y Pasg.

Gwnaethoch hefyd nodi yn eich llythyr bod eich swyddogion yn ystyried a fyddai'r sesiwn seneddol dwy flynedd yn arwain at unrhyw oblygiadau i'r Cynigion Cydsyniad Deddfwriaethol a allai fod angen. Edrychaf ymlaen at gael y wybodaeth hon maes o law.

Yn gywir

Elin Jones AC  
Llywydd

cc Cadeiryddion Pwyllgorau'r Cynulliad

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA

Llywydd@cynulliad.cymru

www.cynulliad.cymru

0300 200 7403

**National Assembly for Wales**

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA

Llywydd@assembly.wales

Tudalen y pecyn 52

0300 200 7403

Eich cyf/Your ref  
Ein cyf/Our ref: MA- P/CS/3044/17

Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Lynne Neagle AC  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1NA

14 Medi 2017

Annwyl Lynne

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 8 Awst, yn dilyn fy ymddangosiad gerbron y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 20 Gorffennaf. Fel y nodwyd yn eich llythyr, yn ystod y sesiwn cytunais i ysgrifennu at y Pwyllgor i ddarparu rhagor o fanylion am nifer o bwyntiau. Mae'r wybodaeth hon wedi'i chyflwyno isod.

### **Proses yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant**

O ran proses yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant, gan gynnwys y system sydd ar waith i fonitro'r dull o'i defnyddio ac enghreifftiau o newidiadau i bolisiau a gafwyd o ganlyniad i Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant, diben yr Asesiad yw helpu swyddogion Llywodraeth Cymru i ystyried effaith unrhyw gyfraith arfaethedig, polisi neu benderfyniad cyllidebol ar blant a'u hawliau. Mae hynny'n cyd-fynd â'r hyn a nodir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). O ganlyniad, gall swyddogion roi'r holl wybodaeth i Weinidogion Cymru am yr effeithiau hyn. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn helpu i sicrhau mai buddiannau plant a phobl ifanc yw un o'r ystyriaethau pennaf ym mhob penderfyniad Gweinidogol sy'n effeithio arnynt.

Mae'r broses yn cynnwys cwblhau templed, sy'n ysgogi swyddogion i ystyried cwestiynau allweddol ynghylch dadansoddi effaith y cynnig ar blant a phobl ifanc, nodi a fydd y cynnig yn cefnogi ac yn hyrwyddo hawliau plant, a sut y bydd yn gwneud hynny. Mae lefel uchel o ymwybyddiaeth ar draws Llywodraeth Cymru o'r angen i gwblhau Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant pa bryd bynnag y bydd effeithiau posibl ar blant a phobl ifanc.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Carl.Sargeant@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Carl.Sargeant@llyw.cymru)  
[Correspondence.Carl.Sargeant@gov.wales](mailto:Correspondence.Carl.Sargeant@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'r tîm Hawliau Plant yn Llywodraeth Cymru yn sicrhau y gall swyddogion gael gafael ar yr adnoddau diweddaraf o ran cyngor, canllawiau, e-ddysgu yng nghyswllt CCUHP, ac enghreifftiau o arferion da ar gyfer ymgymryd â phroses yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant. Mae eitemau newyddion cysylltiedig rheolaidd ar fewnwyd Llywodraeth Cymru, cylchlythyrau adrannol staff, ac ymgyrchoedd posteri yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau y codir ymwybyddiaeth yn barhaus.

Mae'r tîm Hawliau Plant hefyd yn cynorthwyo staff i fanteisio ar arbenigedd ynghylch hawliau plant y tu allan i Lywodraeth Cymru, sy'n cyfrannu at ddealltwriaeth well o'r broses o gymhwyso a dehongli CCUHP yn eu gwaith.

Mae mewnflwch pwrpasol y mae'n ofynnol i staff anfon pob Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant a gwblhawyd ato, er mwyn cael cyngor a chanllawiau. Mae pob Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant a geir drwy'r mewnflwch yn cael ei gofrestru ar gronfa ddata ganolog sy'n darparu cofnod o'r Asesiadau a gynhaliwyd.

Mae'r tîm Hawliau Plant hefyd yn monitro rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru a'r dudalen ymgynghori i sicrhau bod Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau'r Plentyn wedi'u cynnal yng nghyswllt pob darn allweddol o'r gwaith. Os nad oes modd canfod hyn, rhoddir gweithdrefn ddilynol ar waith.

Caiff pob dogfen Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant sy'n ymwneud â deddfwriaeth ei chyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru, ynghyd â'r darn perthnasol o waith. O ran penderfyniadau nad ydynt yn rhai deddfwriaethol, caiff pob teitl Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant a gwblhawyd ei restru mewn Cylchlythyr chwarterol sydd ar gael ar gais drwy'r mewnflwch Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant. Mae'r Cylchlythyr yn darparu cofnod cronus o bob Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant a gwblhawyd. Hyd yma, mae'r Tîm Hawliau Plant wedi cael 24 o geisiadau am gopiâu o'r Asesiadau gan randdeiliaid allanol sydd ar ein rhestr ddosbarthu ar gyfer y cylchlythyr.

Cynhaliwyd gwerthusiad o broses yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn 2015 ac mae dogfen dempled Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant sydd wedi'i diweddarau'n cael ei threialu ar hyn o bryd.

### Newidiadau i bolisiâu o ganlyniad i'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant

Mae ymateb Comisiynydd Plant Cymru i'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ar gyfer y Bil Teithio Llesol (sy'n Ddeddf erbyn hyn) yn enghraifft o sefyllfa pan fu i'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ysgogi pryderon a galluogi trafodaeth a dull cyfranogol o weithio er budd pennaf plant, gan arwain at ddatblygu canllawiau statudol newydd.

Tynnodd sylwadau'r Comisiynydd Plant ynghylch yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant sylw at bryderon am ddiogelwch personol plant a phobl ifanc wrth iddynt gerdded i'r ysgol. Er bod materion diogelwch traffig wedi'u hystyried, roedd angen ystyried ystod ehangach o ffactorau a allai effeithio ar ddiogelwch personol. Ymysg y rhain oedd materion fel yr oedd llwybr wedi'i oleuo'n dda, neu a oedd yn cynnwys mannau wedi'u hynysu neu fannau lle y gwyddys y ceir ymddygiad gwrthgymdeithasol gan blant hŷn neu oedolion. Roedd y Comisiynydd o'r farn nad oedd erthygl 19 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn cael ei hystyried i raddau digonol.

Er na chafodd y Bil ei hun ei ddiwygio, aeth Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ar y pryd ar drywydd y pwynt hwn, ac o ganlyniad datblygodd ganllawiau statudol newydd ar asesu risg yng nghyswllt llwybrau cerdded i'r ysgol, y mae bellach yn ofynnol i Awdurdodau Lleol eu hystyried.

Roedd y canllawiau dilynol yn cynnwys darpariaeth benodol ynglŷn â diogelwch personol, a oedd wedi'i llywio gan safbwyntiau plant a phobl ifanc, yn ogystal â disgwyliadau ynglŷn â'u cyfranogaeth yn y broses o weithredu'r canllawiau.

## **Model Comisiynwyr Statudol**

Yn y Pwyllgor, trafodwyd annibyniaeth gymharol model Comisiynwyr statudol Cymru o gymharu â'r rhai mewn gwledydd eraill (gan ganolbwyntio ar y Comisiynydd Plant yn arbennig). Gan fod fy nghylch gwaith yn ymwneud â phlant a phobl ifanc, rwyf wedi canolbwyntio isod ar y sefyllfa o ran rôl Comisiynwyr Plant.

Y model yng Nghymru yw bod y Comisiynydd Plant yn cael ei benodi gan y Prif Weinidog ac yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru. Mae gan y Comisiynydd statws corfforaeth unigol ac mae'n sefydliad hawliau dynol annibynnol. Mae hynny'n nodwedd sylfaenol ar weithredu cylch gwaith y Comisiynydd. Caiff rhaglen waith y Comisiynydd ei phennu gan y Comisiynydd, gan gydymffurfio â'r rhwymedigaethau deddfwriaethol, ac nid oes dim meysydd yn y cynllun gwaith (gan gynnwys archwiliadau neu adolygiadau statudol) y mae'n ofynnol cael cymeradwyaeth Gweinidogion iddynt.

I bob pwrpas, mae'r model hwn yr un fath â'r model ar gyfer rolau Comisiynydd Plant Lloegr a Chomisiynydd Plant a Phobl Ifanc Gogledd Iwerddon, y maent ill dau hefyd wedi'u noddi gan adrannau llywodraethol.

Mewn cyferbyniad â hynny, caiff Comisiynydd Plant a Phobl Ifanc yr Alban ei benodi gan Ei Mawrhydi yn dilyn enwebiad gan y Senedd, a chaiff ei ariannu gan Senedd yr Alban ac mae'n atebol iddi. Mae'r modelau a geir yng Ngwlad Belg a'r Iseldiroedd yn debycach i fodel yr Alban. Yng Ngwlad Belg, mae swyddfa'r Comisiynydd Hawliau Plant yn asiantaeth annibynnol gyhoeddus, sy'n cael ei hariannu gan Senedd Fflandrys ac sy'n cyflwyno adroddiadau iddi'n flynyddol. Yn yr Iseldiroedd, mae swyddogaeth Ombwdsmon Plant wedi'i hymgorffori yn swyddfa'r Ombwdsmon Cenedlaethol, ac o dan ddeddfwriaeth penodwyd Is-ombwdsmon yn Ombwdsmon Plant cyntaf y wlad. Mae'r Ombwdsmon Cenedlaethol a'r Ombwdsmon Plant ill dau'n cyflwyno adroddiadau i Senedd yr Iseldiroedd yn uniongyrchol ac yn annibynnol.

Yng Ngogledd Iwerddon, caiff y Comisiynydd ei benodi gan y Prif Weinidog a'r Dirprwy Brif Weinidog. Bu dau adolygiad o ddeddfwriaeth y Comisiynydd (2006 a 2013), ac argymhellodd y ddau, er mwyn cydymffurfio ag [Egwyddorion Paris](#) (yr egwyddorion ynghylch annibyniaeth cyrff cyhoeddus sy'n ymwneud â hawliau dynol), y dylai Comisiynydd Plant a Phobl Ifanc Gogledd Iwerddon fod yn annibynnol ar lywodraeth a chyflwyno adroddiadau i Gynulliad Gogledd Iwerddon, yn hytrach nag i adran lywodraethol. Nododd yr adroddiadau hyn gyfyngiadau critigol yn y ddeddfwriaeth ynghylch y Comisiynydd sy'n effeithio ar allu'r Comisiynydd i arfer ei phwerau cyfreithiol yn llwyr. Hyd yma, nid yw Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon wedi rhoi dim o'r argymhellion hyn ar waith neu wedi'i gwneud yn ofynnol cyflwyno newidiadau.

Comisiynodd y cyn-Weinidog Cymunedau a Threchu Tlodi adolygiad annibynnol o'r fframweithiau deddfwriaethol a llywodraethu presennol sy'n ategu Comisiynydd Plant Cymru, a chyflwynwyd ei ganfyddiadau ym mis Rhagfyr 2014. Gwnaeth yr adolygiad 42 o argymhellion, gan gynnwys y dylai Llywodraeth Cymru drosglwyddo'r broses o benodi ac ariannu'r Comisiynydd Plant i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Ym marn Llywodraeth Cymru, mae'r model presennol yn diogelu annibyniaeth y Comisiynydd Plant. Er bod y Prif Weinidog yn penodi'r Comisiynydd ac yn ariannu ei swyddfa, mae ganddi statws annibynnol yn gorfforaeth unigol, ac mae'n pennu ei hagenda ei hun.

Ar ben hynny, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac nid y Prif Weinidog neu Lywodraeth Cymru, sy'n ei dwyn i gyfrif. Mae rhannu'r cyfrifoldeb am benodi ac ariannu ar yr un llaw, ac am waith craffu ar y llaw arall, rhwng Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru yn helpu i sicrhau annibyniaeth ac atebolrwydd y Comisiynydd.

## **Ardaloedd Arloesi Rhoi Plant yn Gyntaf**

Bu ichi ofyn am yr amserlenni y mae gwaith ardaloedd arloesi Rhoi Plant yn Gyntaf yn eu dilyn. Bydd yr ardaloedd Arloesi yn datblygu amryw o ddulliau gweithredu ar gyfer Rhoi Plant yn Gyntaf dros y 12 mis nesaf. Yn y flwyddyn gyntaf, byddant yn canolbwyntio ar sicrhau bod yr ardaloedd Arloesi'n ymgysylltu â'u cymunedau er mwyn datblygu cynllun strategol. Bydd pob ardal Arloesi'n datblygu Damcaniaeth Newid, a fydd yn darparu gweledigaeth glir o'i gweithgareddau arfaethedig a sut y mae'r rhain yn ymwneud â'r allbynnau a'r deilliannau tymor byr a thymor hir, yn ogystal â'r cysylltiadau rhwng pob cyfnod. Bydd data o'r ardaloedd Arloesi'n cael eu casglu yn ystod haf 2018, a byddant yn cael eu defnyddio i werthuso'r gwahanol ddulliau gweithredu a fabwysiadwyd gan yr Arloeswr ac i lywio unrhyw benderfyniad ar gyflwyno'r drefn i gymunedau eraill neu beidio.

## **Cyflawni Strategaeth y Gweithlu Gofal Plant**

Cytunais i roi manylion i'r Pwyllgor am fy nghynlluniau i gyhoeddi cynllun y gweithlu gofal plant, chwarae a blynyddoedd cynnar, a'r modd yr wyf yn bwriadu ei weithredu.

Fel y datganais yn y Pwyllgor, hoffwn sicrhau bod y cynllun yn gywir a'i fod yn cyflawni anghenion y sector. Yn fy nhrafodaethau parhaus â'r sector, mae wedi mynegi nifer o bryderon wrthyf ynghylch costau cynyddol darpariaeth gofal plant, yn arbennig effaith yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol ac ysgwyddo cynnydd mewn ardrethi busnes a chostau safleoedd. Fel rhan o'r gwaith o roi'r wedd derfynol ar y cynllun gweithredu, mae'n hollbwysig ein bod yn cynorthwyo'r sector i ddatblygu ei gapasiti a'i allu, nid yn unig i gyflwyno'r cynnig gofal plant ond i ategu dyheadau tymor hwy y cynllun gweithlu.

Rwyf wedi trafod ag Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith a'r Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth, ac mae ein swyddogion wrthi'n ystyried pa gymorth busnes a sgiliau ychwanegol y gellir ei ddarparu i'r sector wrth fwrw ymlaen â'r gwaith o roi'r wedd derfynol ar y cynllun. Rwyf yn disgwyl y bydd y gwaith hwn yn cael ei gwblhau'n fuan. Yn y cyfamser, bu i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith gyhoeddi £100,000 yn ddiweddar i helpu busnesau gofal plant i gynnig mwy o leoedd. Bydd y cyllid hwn hefyd ar gael yn ardaloedd peilot gweithredwyr cynnar Awdurdodau Lleol er mwyn canfod y dull gorau o gefnogi'r sector yn y dyfodol.

O ran bwrw ymlaen â gweithredu'r cynllun gweithlu, mae'n bwysig nodi bod y gwaith hwn yn mynd rhagddo ers tro mewn nifer o feysydd. Er enghraifft, wrth gyflawni dyheadau'r cynllun, bydd yn hollbwysig i'r sector fod y gyfres newydd o gymwysterau'n barod i'w haddysgu ym mis Medi 2019. Mae cryn gynnydd wedi'i wneud eisoes er mwyn sicrhau y bydd hyn yn cael ei gyflawni. Yn ogystal, mae rhaglen Cynnydd ar gyfer Llwyddiant wedi'i datblygu ochr yn ochr â'r cynllun gweithlu, a'i phrif ddiben yw cynyddu lefelau'r cymwysterau gofal plant a chwarae cydnabyddedig y mae'r gweithlu presennol yn eu dal. Disgwylir i'r rhaglen bresennol ddod i ben ym mis Hydref 2018, ac fel ar ddiwedd mis Gorffennaf 2017, roedd 823 o gyfranogwyr yn ei defnyddio.

Mae'n hollbwysig bod polisïau a rhaglenni Llywodraeth Cymru yn gyson â'i gilydd er mwyn sicrhau ein bod yn gallu cefnogi'r sector yn llwyr. Gobeithiaf fod yr hyn yr wyf wedi'i nodi uchod yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ynglŷn â'r cynnydd yn y cyswllt hwn, ac edrychaf ymlaen at gyhoeddi'r cynllun gweithlu terfynol yn yr hydref.

## Ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd: Plant a Phobl Ifanc

Bu ichi ofyn hefyd am nodyn ynghylch y gwaith sy'n cael ei wneud mewn cysylltiad â phlant a phobl ifanc er mwyn paratoi ar gyfer ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd. Mae dogfen gryno i bobl ifanc, sef [“Sicrhau Dyfodol Cymru - Symud o'r Undeb Ewropeaidd i berthynas newydd ag Ewrop”](#) wedi'i llunio a'i chyhoeddi ar wefan ymgyrch Llywodraeth Cymru, ochr yn ochr â'r [Papur Gwyn ar Ddiogelu Dyfodol Cymru](#). Mae'r ddogfen hon wedi'i rhannu'n eang â swyddogion a rhanddeiliaid allanol, gan gynnwys y gweithwyr cyfranogaeth plant ar draws pob Awdurdod Lleol, Plant yng Nghymru, Unicef, ac Arsyllfa Cymru ar Hawliau Dynol Plant a Phobl Ifanc.

Rwyf wedi cytuno ar gyllid ar gyfer caffael gwasanaethau sefydliad(au) allanol i ddarparu cyfres o weithdai ledled Cymru er mwyn rhoi llais i blant a phobl ifanc a sicrhau bod eu safbwyntiau ynglŷn â'r Undeb Ewropeaidd yn cael eu hystyried, ac i ddatblygu ymgynghoriad ar-lein a fydd yn cychwyn yn y flwyddyn ariannol hon.

Rwyf hefyd wedi cytuno ar sefydlu grŵp cynghori o bobl ifanc a fydd yn sicrhau bod y safbwyntiau a gasglwyd drwy'r gweithdai a'r ymgynghoriad yn cael eu trosglwyddo i'r Grŵp Cynghori ar Ewrop, a bod Llywodraeth Cymru yn eu hystyried o ddifrif.

Byddai unrhyw gynrychiolwyr neu weithgor i bobl ifanc yn cyfrannu at Grŵp Cynghori Llywodraeth Cymru ar Ewrop. Mae fy swyddogion yn bwrw ymlaen â'r gwaith hwn ar hyn o bryd. Byddaf yn darparu rhagor o fanylion maes o law.

## Gwerthusiadau o Dechrau'n Deg a Chynlluniau Tebyg sy'n seiliedig ar Godau Post

Cyhoeddwyd Gwerthusiad o Effaith Dechrau'n Deg yn 2013:

<http://gov.wales/docs/caecd/research/131205-national-evaluation-flying-start-impact-report-en.pdf> [Saesneg yn unig]. Mae'r adroddiad wedi'i seilio ar ganfyddiadau ail gam arolwg hydredol o 2,116 o deuluoedd â phlant rhwng dwy a phedair oed sy'n byw mewn ardaloedd cyflawni Dechrau'n Deg ac ardaloedd cymharu nad ydynt yn rhan o Dechrau'n Deg. Er mwyn amcangyfrif effaith y rhaglen, cafodd ymatebwyr mewn ardaloedd Dechrau'n Deg eu paru ag ymatebwyr yn y grŵp cymharu o safbwynt amryw o ffactorau, fel oedran, maint y teulu, addysg, mathau o dai, statws unig riant, a newidion cymdeithasol-economaidd eraill. Er bod y dull hwn yn egluro nifer o wahaniaethau a arsylwyd rhwng y ddau grŵp, ni all oresgyn pob gwahaniaeth gwaelodol. Daeth y gwerthusiad i'r casgliad ei bod yn bosibl bod Dechrau'n Deg wedi cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau rhieni a phlant. Mae'r casgliad hwn wedi'i seilio ar y rhagdybiaeth bod teuluoedd sy'n byw yn ardaloedd Dechrau'n Deg yn cychwyn o sylfaen is na'r rhai yn y grŵp cymharu cyn i'r rhaglen gael ei chyflwyno. Mae peth tystiolaeth na allai'r broses baru addasu'n llwyr ar gyfer pob gwahaniaeth gwaelodol. O ganlyniad, mae'r diffyg gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol yn awgrymu y gall Dechrau'n Deg fod wedi creu gwelliannau, a deilliannau teuluoedd ar yr un lefel erbyn hyn â'u teuluoedd cyfatebol llai difreintiedig.

Cyhoeddwyd [adroddiad](#) ym mis Chwefror 2017 sy'n cyflwyno canfyddiadau dadansoddiad o ddeilliannau addysgol plant sy'n byw mewn ardaloedd Dechrau'n Deg, gan ddefnyddio setiau data sy'n bodoli eisoes: <http://gov.wales/docs/caecd/research/2017/170208-flying-start-educational-outcomes-cy.pdf>. Canfu'r dadansoddiad fod cyfraddau presenoldeb plant a allai fod yn gymwys i gael o leiaf ddwy flynedd o gymorth Dechrau'n Deg yn uwch na'r rhai a oedd yn byw yn yr un ardal cyn cyflwyno Dechrau'n Deg. Canfuwyd hefyd fod eu presenoldeb wedi gwella'n gyflymach nag yn achos plant a oedd yn byw mewn ardaloedd nad ydynt yn rhan o raglen Dechrau'n Deg.

Rydym wrthi'n treialu dull o gasglu data ar lefel unigolion ynglŷn ag ymgysylltu a deilliannau o ran plant sy'n rhan o raglen Dechrau'n Deg.



Disgwylir i hynny arwain at ddadansoddiad mwy cadarn o'r deilliannau i blant sy'n rhan o raglen Dechrau'n Deg o'u cymharu â'r rhai i blant tebyg nad ydynt yn rhan o'r rhaglen, gan gynnwys plant cymwys nad ydynt yn cael gwasanaethau y mae hawl iddynt a phlant sy'n byw mewn ardaloedd nad ydynt yn gymwys.

Yn Atodiad 1 i'r llythyr hwn, mae rhestr o astudiaethau perthnasol eraill a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru.

## **Materion eraill**

Yn eich llythyr hefyd mynegwyd nifer o bwyntiau yr oedd y Pwyllgor am gael rhagor o wybodaeth amdanynt. Mae'r ymatebion i'r pwyntiau hynny wedi'u nodi isod.

### Eiriolaeth

Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am eiriolaeth maes o law.

### Tlodi Plant

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pa mor bwysig yw cofnodi lles plant a phobl ifanc o'u safbwynt nhw a sicrhau bod hynny'n llywio'r broses o ddatblygu a gwerthuso polisïau.

Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn cyhoeddi ac yn defnyddio arolwg [Ymddygiadau Iechyd mewn Plant Oedran Ysgol](#) (HBSC), sy'n peri bod modd dadansoddi tueddiadau allweddol mewn deilliannau iechyd, ymddygiadau, a'r cyd-destun cymdeithasol ar lefel genedlaethol. Defnyddir hwn i gyflwyno adroddiadau ar y dangosyddion llesiant cenedlaethol i Gymru sy'n deillio o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – dangosydd 5, canran y plant sydd â llai na dwy ffordd iach o fyw (sef dangosydd cyfansawdd sy'n defnyddio data ynghylch statws ysmygu, yfed alcohol, gweithgarwch corfforol a'r ffrwythau/llysiau sy'n cael eu bwyta).

Yn ogystal, yn ddiweddar bu inni ddarparu cyllid ychwanegol, a gymeradwywyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg a Sgiliau, i gryfhau arolwg HBSC i gynnwys data ynghylch llesiant plant a hawliau plant yng Nghymru. Bydd y data o'r gwaith ymchwil ychwanegol hwn yn cael eu cyflwyno ochr yn ochr â'r Dangosyddion Cenedlaethol, ac mae'n bosibl y byddant yn cael eu mabwysiadu'n ffurfiol fel rhan o'r gyfres o ddangosyddion.

Mae astudiaeth HBSC yn cynnig llwyfan ar gyfer casglu a dadansoddi'r data hyn yng nghyswllt pobl ifanc o oedran ysgol uwchradd yn y lle cyntaf. Gweinyddir yr astudiaeth drwy'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion, a gynhelir ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae'r cyllid ychwanegol yn ategu'r gwaith o ddatblygu, profi, casglu, dadansoddi, a lledaenu data ar lesiant goddrychol. Darperir hyn drwy amrywiad i grant presennol i'r Rhwydwaith drwy'r Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Ymchwil ar Iechyd a Llesiant y Boblogaeth (a ariennir gan yr Is-adran Ymchwil a Datblygu yn yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol).

Bydd y gwaith maes ar gyfer arolwg HBSC, ynghyd â chwestiynau ychwanegol am lesiant goddrychol, yn cael eu gweithredu yn ystod hydref/gaeaf 2017/18, a chyflwynir adroddiad yn y gwanwyn yn 2018.

Y tu hwnt i'r gwaith hwn, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ymgymryd â gwaith ymchwil ansoddol a meintiol rheolaidd gyda phlant a phobl ifanc fel rhan o waith ar arolygon eraill ac astudiaethau sy'n ymwneud â pholisïau penodol. Ymysg yr enghreifftiau o'r gwaith hwn mae:



- y Gwerthusiad o'r Cyfnod Sylfaen;
- Hwb Cymru i Arolwg Carfan y Mileniwm;
- Deall profiadau addysgol a safbwyntiau, cyrhaeddiad, cyflawniad a dyheadau plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru

Cyhoeddir pob un o'r astudiaethau hyn ar dudalennau gwe Ystadegau ac Ymchwil Llywodraeth Cymru: <http://gov.wales/statistics-and-research/?skip=1&lang=cy>

*Gwybodaeth gefndir bellach am astudiaeth Ymddygiadau Iechyd mewn Plant Oedran Ysgol a'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion*

Prif amcanion yr astudiaeth o Ymddygiadau Iechyd mewn Plant Oedran Ysgol yw:

- darparu dealltwriaeth fanwl o iechyd a llesiant pobl ifanc, gan gynnwys penderfyniadau cymdeithasol iechyd;
- cyfrannu at bolisïau ac arferion i wella bywydau pobl ifanc;
- lledaenu canfyddiadau i grwpiau amrywiol, er enghraifft y rhai sy'n llunio polisïau yn Llywodraeth Cymru, llywodraeth leol, y GIG, athrawon, rhieni, pobl ifanc ac ymchwilwyr; a
- chychwyn a chynnal gwaith ymchwil cenedlaethol a rhyngwladol ar ymddygiadau iechyd a chyd-destun cymdeithasol iechyd ymysg pobl ifanc.

Mae'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion yn rhychwantu mwy na 50% o'r ysgolion uwchradd yng Nghymru, a dyma'r rhwydwaith mwyaf o'i fath yn y byd, ac yntau'n cynnwys oddeutu 39,000 o ddisgyblion. Mae'r rhwydwaith yn gwneud cryn gynnydd tuag at gyflawni 100% yn ystod 2017/18, ac mae ganddo gynlluniau i ymestyn y gwaith i ysgolion cynradd. Mae'r Rhwydwaith yn darparu seilwaith cryf ar gyfer adeiladu'r gronfa dystiolaeth ynghylch llesiant. Mae pob ysgol yn y rhwydwaith yn cwblhau Arolwg Iechyd a Llesiant Myfyrwyr electronig dwyieithog bob dwy flynedd. Mae'r arolwg wedi'i seilio ar Arolwg Ymddygiadau Iechyd Plant Oedran Ysgol cydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd, fel y gellir cyfuno'r ddau arolwg bob pedair blynedd, ac mae Holiadur ynghylch Amgylchedd Ysgolion yn cyd-fynd ag ef, sy'n peri bod modd ymchwilio i berthnasoedd rhwng polisïau ac arferion ysgolion ac iechyd myfyrwyr. Mae'r arolygon yn darparu seilwaith hyblyg ac ymatebol ar gyfer casglu data ar arferion ysgolion a materion sy'n dod i'r amlwg ac sy'n berthnasol i bolisïau, ac maent yn darparu seilwaith cost-effeithiol i gynnal arolygon o ysgolion, astudiaethau ymchwil ac arbrofion naturiol ar bolisïau newydd. Mae defnyddio rhwydwaith sy'n bodoli eisoes yn gwella effeithlonrwydd y gwaith ac mae'n lleihau'r baich ar ysgolion, gan greu'r fantais ychwanegol o ddwyn ynghyd gyllid iechyd ac addysg i ategu llesiant plant ar draws portffolios.

### Cynnig Gofal Plant

Rwyf yn croesawu diddordeb parhaus y Pwyllgor yn y broses o ddatblygu cynnig Gofal Plant a'i effaith ar bolisïau cysylltiedig, a byddaf yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau ar gynnydd yn y cyswllt hwn.

### Hawliau Plant

Roedd Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn garreg filltir ac mae ymrwymiad y Llywodraeth hon i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn gwbl gadarn o hyd. Fel y mae fy nhystiolaeth ar broses yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn ei ddangos, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i osod hawliau plant wrth galon ein gwaith o lunio polisïau a phenderfyniadau.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn darparu fframwaith llywodraethu cryfach er mwyn i gyrff cyhoeddus wella'u dull o wasanaethu buddiannau plant a phobl ifanc. Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer ffordd well o wneud penderfyniadau drwy sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn edrych tua'r tymor hir; yn helpu i atal problemau neu eu hatal rhag gwaethygu; yn mabwysiadu dull gweithredu integredig a chydweithredol; ac yn cynnwys pobl o bob oedran – gan gynnwys plant a phobl ifanc.

Mae'r Prif Weinidog wedi ysgrifennu at y Comisiynydd Plant i amlinellu ein safbwynt o ran y ddyletswydd i roi sylw dyledus, ac nid yw ein safbwynt wedi newid. Nid ydym yn cytuno bod angen gosod dyletswydd gyffredinol i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn yr holl ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc.

Fel sy'n ofynnol o dan Fesur 2011, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried hawliau plant ac yn sicrhau eu bod yn rhan o'r broses o ddatblygu deddfwriaeth. Drwy gydymffurfio â'r dyletswyddau hyn, bydd darparwyr gwasanaethau ac ymarferwyr yn rhoi effaith i'r hawliau a ddisgrifir yn y Confensiwn.

Ni fyddai dyletswydd gyffredinol ar ddarparwyr gwasanaethau i roi sylw dyledus yn arwain ynddi'i hun at ddeilliannau gwell i blant a phobl ifanc. Ni fyddai'n gwarantu cam gweithredu neu ganlyniad penodol ac nid oes dim tystiolaeth y byddai'n cael effaith gadarnhaol o ran deilliannau gwell.

Pe baem yn gosod dyletswydd i roi sylw dyledus yn uniongyrchol ar y rhai sy'n arfer swyddogaethau statudol, mae perygl y byddwn yn tynnu sylw ymarferwyr rheng flaen oddi wrth eu gwaith drwy greu haenau o fiwrocratiaeth – gan olygu bod rhaid i weithwyr proffesiynol ddangos tystiolaeth eu bod wedi ystyried y confensiwn yn eu rhyngweithiadau â phob plentyn a pherson ifanc.

Byddai'r ddyletswydd yn creu perygl y gallai sefydliadau sydd â swyddogaethau o dan Ddeddf wynebu ymglyfreitha oherwydd methiannau gweithdrefnol. Mae eu diogelu eu hunain rhag risgiau o'r fath yn creu haen ychwanegol o fiwrocratiaeth, a gall ofyn am amser ac adnoddau y gellid bod wedi'u defnyddio fel arall i gynorthwyo plant a phobl ifanc a gwella deilliannau.

Gobeithiaf y bydd y wybodaeth hon yn ddefnyddiol ichi.

Yn gywir



**Carl Sargeant AC/AM**

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant  
Cabinet Secretary for Communities and Children

## Gwerthusiadau o Dechrau'n Deg a Chynlluniau Tebyg sy'n seiliedig ar Godau Post

Mae'r rhestr a ganlyn yn cynnwys astudiaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u comisiynu, y cyhoeddir pob un ohonynt ar dudalennau gwe Ystadegau ac Ymchwil Llywodraeth Cymru, yn unol â'n Hegwyddorion ar gyfer Gwaith Ymchwil a Gwerthuso:

<http://gov.wales/statistics-and-research/?skip=1&lang=cy>

Dylid nodi bod cymharu deilliannau ar gyfer y plant hynny sy'n defnyddio cynlluniau neu y mae'r cynlluniau hynny'n effeithio arnynt, a'r rhai nad ydynt yn eu defnyddio neu nas effeithir arnynt, yn ymwneud â chryfder y dadansoddiad sy'n bosibl o ystyried argaeledd ac ymarferoldeb y data. Er enghraifft, gellid honni y byddai methodoleg hapdreialon a reolir yn darparu tystiolaeth gryfach o effaith, tra bo gan ddulliau mesur neu gymariaethau 'cyn ac ar ôl' o ddeilliannau rhwng ardaloedd wendidau sy'n cyfyngu ar y broses o ddadansoddi achosiaeth rhwng ymyriadau a deilliannau. Er hynny, mae'r gwaith ymchwil ynghylch Dechrau'n Deg a restrir isod wedi defnyddio'r dulliau gorau sydd ar gael ac sy'n ymarferol er mwyn deall cyfraniad Dechrau'n Deg, a rhaglenni eraill sydd wedi'u seilio ar ardaloedd, at ddeilliannau plant. At ddibenion cymharu, bu i'r gwerthusiad o raglen Brechwast am Ddim Llywodraeth Cymru ddefnyddio proses o ystyried clystyrau ysgolion ar hap er mwyn dangos effaith y rhaglen ar y plant a fu'n cymryd rhan ynddi o'u cymharu â'r rhai na wnaethant gymryd rhan.

Isod ceir rhestr o werthusiadau o'r rhaglenni mwyaf perthnasol (hynny yw, y rhai a dargedir at blant yn ôl dull sy'n seiliedig ar ardaloedd). Mae'n eithrio astudiaethau eraill o ymyriadau ar sail ardaloedd (e.e. rhaglenni Ewropeaidd fel Leader) nad ydynt wedi'u hanelu'n uniongyrchol at blant ond a all gael effaith anuniongyrchol.

### Gwerthusiad Cenedlaethol o Dechrau'n Deg

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgymryd â rhaglen o waith ymchwil ynghylch Dechrau'n Deg, sydd wedi arwain at gyfres o adroddiadau. Cafwyd y cyntaf yn 2010, a chyhoeddwyd y dadansoddiad diweddaraf o ddeilliannau addysgol ym mis Chwefror 2017. Mae'r holl adroddiadau ar gael yn:

<http://gov.wales/statistics-and-research/national-evaluation-flying-start/?skip=1&lang=cy>

- Gwerthusiad o Dechrau'n Deg: Deilliannau addysgol
- Ymchwil ansoddol gyda Theuluoedd Dechrau'n Deg: Cam 2
- Ymchwil ansoddol gyda Theuluoedd Dechrau'n Deg: Cam 1
- Dechrau'n Deg: Adroddiad synthesis
- *National evaluation of Flying Start: Impact report* [Saesneg yn unig]
- *National evaluation of Flying Start: Area case study synthesis report* [Saesneg yn unig]
- *Flying Start: Qualitative research with high need families – interim report* [Saesneg yn unig]
- *Evaluation of Flying Start: Findings from the baseline survey of families* [Saesneg yn unig]
- Gwerthusiad Interim o Dechrau'n Deg

### Cymunedau yn Gyntaf

Bu rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn gweithredu ers 2001 ac mae cyfres o werthusiadau a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru wedi helpu i ganfod newidiadau a fyddai'n diwygio'r rhaglen ac yn ei gwella. Mae'r astudiaeth ddiweddaraf ar gael yma:

<http://gov.wales/statistics-and-research/evaluation-communities-first/?skip=1&lang=cy>

Mae astudiaethau blaenorol o Cymunedau yn Gyntaf, gan gynnwys dadansoddiad o ddeilliannau addysgol i blant, ar gael yma:

<http://gov.wales/statistics-and-research/evaluation-communities-first/?tab=previous&skip=1&lang=cy>

### **Brecwast am Ddim**

Mae gwerthusiad Llywodraeth Cymru ei hun ac astudiaethau academiaidd eraill wedi darparu ffynhonnell gyfoethog o dystiolaeth ynghylch effaith wahaniaethol brecwast am ddim ar ddisgyblion sy'n cymryd rhan yn y fenter:

<http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20140418210633/http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/schoolshome/foodanddrink/breakfast/evaluation/?skip=1&lang=cy>

Astudiaeth ddilynol Prifysgol Caerdydd o effaith brecwast am ddim ar gyrhaeddiad:

<http://www.cardiff.ac.uk/cy/news/view/162112-good-breakfast,-good-grades>

### **Gwerthusiad o'r Strategaeth Tlodi Plant**

Comisiynodd Llywodraeth Cymru yr astudiaeth hon yn 2012, ac mae'n cynnwys meta-adolygiad o effeithiolrwydd ac effaith sampl o raglenni allweddol Llywodraeth Cymru, y mae ei nodau'n berthnasol i dri amcan creiddiol y Strategaeth Tlodi Plant. Mae'r adroddiad terfynol ar gael yma:

<http://gov.wales/docs/caecd/research/2014/140709-child-poverty-strategy-wales-final-cy.pdf>

### **Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) – gohebiaeth ar gael ar y wefan**

- Yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig
- Llythyr oddi wrth y Gweinidog a chopi o adolygiad allanol
- Llythyr oddi wrth y Gweinidog lle mae'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar weithredu'r Rhaglen Trawsnewid System Anghenion Dysgu Ychwanegol

<http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=16496>

Vaughan Gething  
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon  
Llywodraeth Cymru

8 Medi 2017

### **Iechyd Emosiynol ac Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc**

Annwyl Vaughan,


Fel y gwyddoch, mae'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg wrthi'n cynnal ymchwiliad i **'Iechyd Emosiynol ac Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc'**. Bydd yr ymchwiliad yn ystyried a yw'r rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc ar y trywydd iawn i sicrhau'r newid sylweddol sydd ei angen ym maes gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed (CAMHS).

Byddwn, wrth gwrs, yn eich gwahodd yn ffurfiol i roi tystiolaeth lafar ar ddiwedd yr ymchwiliad, a byddwn yn ysgrifennu atoch am hyn maes o law. Bryd hynny, byddwn yn gofyn am bapur ffurfiol i helpu i lywio'r sesiwn honno. Cyn cynnal ein sesiynau tystiolaeth lafar, gallai'r Pwyllgor hefyd ofyn i chi roi'r diweddaraf am bob llinyn o'r rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc, a byddwn yn ysgrifennu atoch ar wahân ynglŷn â hyn. Fodd bynnag, ar hyn o bryd byddwn yn ddiolchgar pe gallech ddarparu'r wybodaeth ganlynol i helpu i lywio trafodaethau cychwynnol yr ymchwiliad.

- A allwch chi gadarnhau pryd y bydd y rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc yn dod i ben yn ffurfiol?
- A fydddech cystal â chyflwyno papur yn amlinellu sut y caiff cyfrifoldebau ar gyfer CAMHS eu rhannu ar draws portffolios y Cabinet, ac esbonio sut rydych chi, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant yn rheoli'r cyfrifoldebau hynny?

Rwy'n edrych ymlaen at weld eich ymateb cynnar.

Yn gywir



**Lynne Neagle AC**  
Cadeirydd

